



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Strategaeth Ryngwladol

drafft ymgynghori

Cynnwys

Trosolwg		3
Crynodeb gweithredol a blaenoriaethau		5
Cymru a'r Byd		
	Pobl	8
	Cynhyrchion	14
	Lle	21
Casgliad		26
Atodiad A	Rhestr o sefydliadau a chytundebau	27
Atodiad B	Y perthnasoedd rhyngwladol sy'n cael blaenoriaeth	28
Atodiad C	Rhwydwaith Tramor Llywodraeth Cymru: Lleoliadau a Manylion Cysylltu	30
Atodiad D	Ein Gwerthoedd	31
Atodiad E	Prosiectau Magnet	33

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hagenda ryngwladol: Cymru yn y Byd. Ers hynny, mae'r dirwedd ryngwladol wedi newid yn ddifrifol gan greu'r angen am strategaeth newydd ac iddi ffocws newydd sy'n nodi gwledigaeth ryngwladol i Gymru.

Dros y chwe mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu ei syniadau ynglŷn â'r strategaeth ac i fwydo'r syniadau hynny. Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, y diffyg eglurder o ran ein perthynas â'n cymdogion agosaf, a'r trafod hirfaith ynghylch tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd wedi ychwanegu'n sylweddol at yr oedi a'r anhawster wrth ddrafftio'r strategaeth ryngwladol hon. Mae'r drafft yn deillio o broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn chi ar ein hymagwedd arfaethedig ni at ryngwladoli.

Gan fod yr ymgynghori'n dod i ben ar 23 Hydref, wythnos yn unig cyn y dyddiad cau estynedig i'r Deyrnas Unedig ymadael a'r Undeb Ewropeaidd, bydd angen cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y strategaeth derfynol, a bydd angen iddi addasu at yr amgylchiadau pan gaiff ei chyhoeddi, mewn ymateb i'r senario 'â bargaen' a'r senario 'dim bargaen' a fydd yn gliriach ar ôl 31 Hydref.

Yn eich ymateb, ystyriwch y pedwar cwestiwn a ganlyn:

Cwestiwn 1: Y tri nod a osodir yn y strategaeth yw:

- codi proffil rhyngwladol Cymru
- cynyddu allforion a mewnfuddsoddiadau
- amlygu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r nodau hyn wedi'u datblygu i ddod â chanlyniadau cydlynol i'r gwaith rhyngwladol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

Ydych chi'n cytuno â'r nodau hyn? Oes unrhyw nodau eraill a ddylai gael eu hystyried?

Cwestiwn 2: Pobl – mae'r strategaeth yn amlygu'r rôl bwysig y gall ein pobl a'n sefydliadau diwylliannol, yng Nghymru a thros y môr, ei chwarae i godi proffil rhyngwladol Cymru.

Ydych chi'n cytuno â'r uchelgais a nodir yn y bennod hon? Ydych chi'n credu y bydd yn cyflawni'r nod allweddol o godi proffil rhyngwladol Cymru?

Cwestiwn 3: Cynhyrchion – mae gan Gymru berthynas fasnachol fyd-eang gref o ran allforio a denu mewnfuddsoddiadau. Mae'r strategaeth yn nodi cynlluniau i arddangos arbenigedd Cymru ym maes seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a ffilm a theledu er mwyn dangos bod gennym economi modern a bywiog. Bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'n harlwy ehangach o ran allforion a mewnfuddsoddiadau i weddill y byd.

Ydych chi'n cytuno y bydd amlygu'r meysydd hyn yn dangos bod gan Gymru economi modern, bywiog a gweithlu medrus?

Cwestiwn 4: Lle – mae diwylliant ac iaith Cymru wedi cyfrannu at dwristiaeth ryngwladol a mwy o gydnabyddiaeth fel cyrchfan i ymwelwyr. Yn y strategaeth hon, rydym wedi nodi bod angen hybu twristiaeth gynaliadwy fel blaenoriaeth. Mae Cymru hefyd wedi dangos ymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang drwy ei rhaglen Cymru o blaid Affrica a'n Byrddau Iechyd.

Ydych chi'n cytuno y bydd yr uchelgais a nodwyd yn y strategaeth yn hybu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac yn amlygu'n hymrwymiad i gynaliadwyedd?

SUT I YMATEB

Gadewch inni gael eich syniadau chi am y strategaeth ddrafft erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Gallwch ymateb ar-lein yma: <https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-ddrafft-i-gymru>. Fel arall, gallwch lawrlwytho'r ffurflen ymateb o'r un cyfeiriad gwe, ei llenwi a'i hanfon atom drwy'r ebost:

Ebost: StrategaethRyngwladol@llyw.cymru

Neu ei phostio i:

Ymgynghoriad y Strategaeth
Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
Llywodraeth Cymru
Llawr 3
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

RHAGOR O WYBODAETH A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael drwy wneud cais.

MANYLION CYSYLLTU

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
Llywodraeth Cymru
Llawr 3
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: StrategaethRyngwladol@llyw.cymru

RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymeryr â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Bydd angen i unrhyw un sy'n ymateb i'r ymgynghoriad fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddi eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

EICH HAWLIAU

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd. CF10 3NQ

Ebost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire. SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 / 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk>



Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith rhyngwladol *Cymru yn y Byd*. Yn y pedair blynedd byr wedyn, mae'r dirwedd ryngwladol wedi newid yn ddifrifus. Nawr yw'r amser i Gymru ailddatgan ei hymrwymiad i'n perthynas barhaus â'n partneriaid byd-eang, gwledydd a rhanbarthau ledled y byd.

Mae'r ansicrwydd a'r aflonyddwch a achosodd refferendwm yr UE yn 2016 a'r trafodaethau hirfaith i dynnu'n ôl o'r UE yn golygu ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i edrych allan tuag at Ewrop a'r tu hwnt; ein bod yn gweithio i sadio'r llwybrau masnach presennol, sefydlu cyfleoedd newydd i fusnesau Cymru a hefyd hybu mewnfuddsoddi ac ymwelwyr i Gymru.

EIN TRI NOD ALLWEDDOL YW:

Codi proffil Cymru'n rhyngwladol – byddwn yn adeiladu enw da ein gwlad fel man sy'n fwrlwm o greadigrwydd a lle mae pobl yn rhydd i arloesi ac arbrofi.

Cynyddu'n hallforion a hybu buddsoddi o'r tu allan, gan ehangu'n heconomi a chreu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru – rydym wedi ymrwymo i gofleidio a datblygu technoleg newydd i sicrhau ffyniant.

Dangos i'r byd yr hyn rydym yn ei wneud fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau byd-eang ac amgylcheddol. Mae'n gwerthoedd cryf mewn cynaliadwyedd yn sail i'r strategaeth hon a phopeth a wnawn.

Mae'r tri nod hyn yn crisialu **creadigrwydd** Cymru, sut rydym wedi harneisio **technoleg** a'n hymrwymiad i **gynaliadwyedd**.

Bydd y strategaeth hon yn amlygu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn rhyngwladol gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid ac yn rhoi cyfeiriad a ffocws strategol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol o fewn y llywodraeth ac yng nghymdeithas ddinesig ehangach Cymru.

Mae wedi'i seilio ar ein gwerthoedd cryf a'n dyletswydd i fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, sef dyletswydd sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ar ein hanes hir a balch o fod yn wlad groesawgar i bobl o bob diwylliant a gwlad ac ar ein hymrwymiad cadarn i nodau datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig ac i hawliau dynol. Byddwn yn hybu'r gwerthoedd hyn i'r byd yn yr holl waith a wnawn.

BETH MAE'R STRATEGAETH YN EI WNEUD?


Bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar gryfderau ein cenedl fach a chraff: ein gwlad a'n diwylliant trawiadol; ein pobl ddawnus, chwilfrydig ac amrywiol a'n cynhyrchion arobryn. Bydd hefyd yn adeiladu ar y cysylltiadau niferus ac amrywiol yr ydym wedi'u sefydlu ledled y byd.

Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn amlygu tri diwydiant penodol y mae Cymru'n rhagori ynddynt, gan ddangos bod Cymru'n gartref i ganolfannau rhagoriaeth yn y meysydd hyn. Drwy dynnu sylw at y cyfleoedd i allforio a buddsoddi yn y diwydiannau hyn ac eraill, byddwn yn creu cyfleoedd newydd ac ehangach i bobl a chyflogaeth yng Nghymru, gan roi hwb i ymchwilio a datblygu ac arloesi er mwyn cynnal cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Bydd y rhain yn ein helpu i dynnu sylw'r byd ehangach at y sgiliau sydd ar gael yng Nghymru ac amrywiaeth ein sector gweithgynhyrchu a'n sector creadigol. Dyma'r meysydd yr ydym wedi dewis eu hamlygu fel canolfannau rhagoriaeth fel rhan o'r strategaeth hon:

- **Seiberddiogelwch**
- **Lled-ddargludyddion cyfansawdd**
- **Y diwydiannu creadigol –** teledu a ffilm

Dyma feysydd lle mae'r arbenigedd ar gael yng Nghymru eisoes, lle mae cwmnïau eisoes ar flaen y gad o ran cynhyrchu a datblygu. Mae yma sylfaen gadarn y gallwn adeiladu mwy o ragoriaeth arni yn y tri maes penodol hyn, yn wyneb heriau Brexit. Nodir manylion pellach yn y bennod ar Gynhyrchion.



Alert Logic, Caerdydd

SUT BYDDWN NI'N CYFLAWNI'R STRATEGAETH HON?

Am y tro cyntaf yn ei hanes, mae gan Lywodraeth Cymru weinidog sydd â chyfrifoldeb dros gysylltiadau rhyngwladol. Er hynny, mae llawer o'r ysgogiadau ynglŷn â chysylltiadau rhyngwladol ac, yn wir, masnach, y tu allan i Lywodraeth Cymru ac yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae gan bob adran bron o Lywodraeth Cymru gysylltiadau rhyngwladol fel rhan o'u gwaith. Bydd y strategaeth hon yn llywio'r gwaith hwnnw ac yn canolbwyntio'r ymdrechion i sicrhau bod gennyn ni neges gyffredin a chyson i gyflawni'n tri nod. Rhaid i'r negeseuon a fynegwn yn rhyngwladol fod yn gyson â'r hyn rydyn ni'n ei gyflawni gartref.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwydwaith o 21 o swyddfeydd dros y môr mewn 12 o wledydd, a fydd yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni'r strategaeth hon. Byddwn yn cyhoeddi cylch gwaith i'n swyddfeydd gan sicrhau bod amcanion yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau busnes er mwyn mynd ati'n

rhagweithiol i ymateb i faterion byd-eang. Byddwn yn atgyfnerthu'n gwaith rhyngwladol ar arfordir gorllewin America i ganolbwyntio ar y meysydd rhagoriaeth sy'n cael blaenoriaeth.

Bydd gwireddu uchelgais y strategaeth hon yn golygu cydweithio â'n partneriaid, sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru; y gymdeithas ddinesig; busnesau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru a'r tu hwnt; sefydliadau anllywodraethol ledled y byd a llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau a sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill, gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag aelodau o Gyngor Prydain ac Iwerddon a'r Gymanwlad a byddwn yn gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad drwy'r rhwydweithiau y maen nhw wedi'u sefydlu dros y môr i hybu Cymru a'n buddiannau tramor.

Bydd cynnal cysylltiadau cryf ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd, wrth i'r Deyrnas Unedig barhau i negodi ymadael â'r UE, yn allweddol i lwyddiant y strategaeth. Bydd ein swyddfa ym Mrwsel yn chwarae rôl arwyddocaol.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i hasiantaethau i sicrhau bod ein strategaeth a'n negeseuon unigryw Gymreig yn cael eu gwiredau a'u bod yn gyson, lle bo modd, â strategaethau a pholisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn gweithio gydag adrannau unigol Llywodraeth y Deyrnas Unedig lle bo modd ac yn sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg o gynrychiolaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd yr adolygiad o'r cysylltiadau rhwng y llywodraethau yn ein helpu i sefydlu trefniadau ffurfiol i sicrhau gwell ymgysylltu Gymreig ar faterion rhyngwladol, ac yn arbennig fasnach. Byddwn hefyd yn cynyddu'n gweithgarwch yn Llundain i sefydlu cysylltiadau â rhwydwaith presennol llysgenhadon gwledydd tramor

DYMA GYMRU

Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid yng Nghymru a ledled y byd i adeiladu ar ein brand sefydledig a llwyddiannus ar gyfer Cymru fel lle i fuddsoddi, gweithio, byw, ymweld ac astudio.

Mae'r brand Cymru Wales, addatblygwyd yn 2016 sy'n cael ei ddefnyddio mewn sawl sector ac sydd wedi ennill gwobrau, yn hybu Cymru i'r byd, ar draws pob sector a marchnad, fel gwlad greadigol, gyfoes o safon, sy'n falch ohoni ei hun, ac sy'n esblygu ar gyfer y dyfodol.

Delwedd weledol rymus yw canolbwynt y brand, a honno'n hynod gyfoes a digamsyniol Gymreig: logo Draig arbennig; ffurfdeip beiddgar, pwrpasol; a dewis o liwiau sydd wedi'u hysbrydoli gan y tirlun o'n cwmpas.

Un syml yw craidd y neges: Dyma Gymru – datganiad o fwriad; gwahoddiad i ganfod ein gwlad a her i

ailfeddwl yr hyn roedd pobl yn credu eu bod yn ei wybod am Gymru.

Gan ganolbwyntio ar adrodd stori Cymru drwy bobl, busnesau a sefydliadau go iawn ein gwlad, mae'r brand yn greadigol, yn ddilys ac yn fwrwlwm o gyfleoedd, syniadau a phrofiadau newydd.

Mae'r brand wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol a ddefnyddir gan y sector addysg uwch i hybu Cymru fel lle i astudio o bwys, mae'n sicrhau canlyniadau rhagorol, a dyma asgwrn cefn ein gwaith yn hybu Cymru yn y Deyrnas Unedig a thros y môr. Mae wedi sbarduno ymagwedd thematig enwog Croeso Cymru at farchnata dros y tair blynedd diwethaf, gan ddylanwadu ar wariant ychwanegol o fwy na £350m y flwyddyn yn yr economi. Mae'n cael ei ddefnyddio at yr holl waith masnach a buddsoddi; gan Fwyd a Diod Cymru; gan farchnad iechyd HyfforddiGweithioByw mewn ymgyrchoedd recriwtio ac mae'n sail i frand Trafnidiaeth Cymru. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan y sector addysg uwch i hybu Cymru fel lle i astudio.

Bydd y strategaeth hon yn helpu i sicrhau newid yn effaith y brand drwy ei droi'n symudiad, sy'n ysbrydoli ac yn grymuso partneriaid i weithio gydag ef i ddathlu Cymru ar lwyfan y byd.

Y nod sydd gennym yw cynyddu proffil a pherfformiad byd-eang Cymru mewn ffyrdd newydd sy'n ddeinamig, arloesol a chyfoes – a hyn gyda'n gilydd.

Fe fyddwn:

- Yn harneisio'r cyfryngau digidol a chymdeithasol i greu a rhannu straeon o Gymru gyda chynulleidfaoedd ledled y byd.
- Yn galluogi pobl, busnesau a sefydliadau yng Nghymru i rannu a defnyddio'r brand a'r deunyddiau marchnata.
- Yn annog asiantaethau'r Deyrnas Unedig a'n brandiau partner rhyngwladol i weithio gyda ni i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith byd-eang y brand drwy ymgyrchoedd ar y cyd a phartneriaethau arloesol.

- Yn parhau i redeg ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n diffinio'r brand i helpu Cymru i fod yn amlwg ar lwyfan byd-eang, ar lun y blynyddoedd thematig sydd wedi'u defnyddio hyd yn hyn mewn twristiaeth.
- Yn datblygu cynllun cyfathrebu digidol i gefnogi'r strategaeth ryngwladol.

SUT BYDDWN NI'N MONITRO'N GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL?

Byddwn yn cynnal dau gyfarfod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cydlynu'n gweithgareddau ar draws Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, megis llywodraeth leol a'r gymdeithas ddinesig, er mwyn sicrhau, pan fo'n bosibl ac yn briodol, ein bod yn gallu adeiladu ar brofiad a llwyfannau rhyngwladol ein gilydd.



John Davies, Cyd-sylfaenydd a Chadeirydd Clwstwr Seiberddiogelwch y De



Tramshed, Caerdydd

EIN TRI NOD ALLWEDDOL YW:

Codi proffil Cymru'n rhyngwladol – byddwn yn adeiladu enw da ein gwlad fel man sy'n fwrlwm o greadigrwydd a lle mae pobl yn rhydd i arloesi ac arbrofi.

Cynyddu'n hallforion a hybu buddsoddi o'r tu allan, gan ehangu'n heconomi a chreu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru – rydym wedi ymrwymo i gofleidio a datblygu technoleg newydd i sicrhau ffyniant.

Dangos i'r byd yr hyn rydym yn ei wneud fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau byd-eang ac amgylcheddol. Mae'n gwerthoedd cryf mewn cynaliadwydd yn sail i'r strategaeth hon a phopeth a wnawn.

Gwlad fach yw Cymru ond un sy'n hyderus ac sy'n edrych ymlaen ac allan. Ein hased mwyaf a'n cryfder yw ein pobl – y tair miliwn a rhagor o bobl sy'n byw yng Nghymru a'r cannoedd o filoedd sydd wedi gwneud eu cartref ledled y byd.

Mae Cymru yn llawn o bobl chwilfrydig, fedrus, greadigol a theyrngrar yn gweithio mewn economi amrywiol sy'n ymestyn o arfordir Iwerydd i'r ffin â Lloegr.

Ein cryfder fel unigolion creadigol a thalentog – yn gweithio ar ein pen ein hunain ac ar y cyd – a fydd yn ein helpu i gyflawni tri nod craidd y strategaeth hon. Rydym yn wlad sy'n llunio ac yn creu; yn ddynion a menywod busnes; yn entrepreneuriaid ac arweinwyr, gyda chyfoeth o syniadau a breuddwydion.

Cenedl sydd wedi'i hadeiladu ar sylfaen cymunedau cryf yw hon, lle mae pobl yn adnabod ac yn parchu ei gilydd. Gyda'h gilydd, mae gennym y sgiliau a'r

dewrder i ddangos i'r byd yr hyn sydd gan Gymru fodern ac amrywiol i'w gynnig.

Dros yr hanner can mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi newid yn gyflym o ddibyniaeth ar weithgynhyrchu a diwydiant trwm i'r economi modern deinamig, amrywiol a welwn ni heddiw. Rydym wedi gweld newid o economi yn cael ei ddominyddu gan y sector cyhoeddus i wlad lle bydd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cydweithio, mewn mentrau bach a chanolig y mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi.

Mae gennym hanes cryf o bartneriaeth gymdeithasol lle mae lleisiau pawb yn cael eu clywed, ac yn cyfrif, a lle mae pobl yn cael eu trin yn deg yn y gwaith.

Mae Cymru o fewn dwy awr o Lundain ar y trên. Caerdydd yw'r brifddinas Ewropeaidd agosaf i Lundain a hi yw'r brifddinas sy'n tyfu gyflymaf. Mae gan Gymru gysylltiadau da â gweddill y

byd ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd a thrwy'r awyr: mae'n cael ei gwasanaethu gan sawl maes awyr, yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys maes awyr Caerdydd sy'n tyfu'n gyflym, gyda hediadau rheolaidd i Doha a dinasoedd yn Ewrop. Mae gan Gymru gysylltedd band eang helaeth ac mae'r pwynt cyfnewid rhynggrwyd yng Nghaerdydd yn un o dri yn unig o bwytiau glanio yn y Deyrnas Unedig, sy'n fodd i dechnolegau'r dyfodol gael eu datblygu ac sydd wedi galluogi Cymru i fod yn gartref i ganolfan ddata fwyaf Ewrop.

Mae Cymru'n wlad wirioneddol ddwyieithog: mae gan y Gymraeg a'r Saesneg yr un statws yn y gyfraith, ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu. Mae gennym uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sy'n golygu bod Cymru mewn sefyllfa berffaith i arwain y ffordd o ran mentora gwledydd eraill yn Ewrop sydd ag ieithoedd deuol a lleiafrifol.

Yn ei dro, mae hyn wedi cyfrannu at ddiwylliant cyfoethog ac unigryw Cymru, sy'n cael ei ddathlu drwy ddigwyddiadau rhyngwladol megis Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Gŵyl Lenyddol flynyddol y Gelli, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Cymru'n adnabyddus ledled y byd oherwydd ei hangerdd dros ddiwylliant, creadigrwydd, cerddoriaeth a chwaraeon. Mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Opera Cenedlaethol Cymru yn chwifio'r faner dros Gymru wrth berfformio dros y môr ac mae'n timau chwaraeon rhyngwladol a'n sêr chwaraeon dawnus wedi mwynhau llwyddiant unigol syfrdanol yn y blynyddoedd diwethaf, mewn rygbi, pêl-droed, taekwondo, beicio a nofio, gan helpu i roi hwb i'n statws a'n henw da yn rhyngwladol.

Bydd yr holl ffactorau hyn yn hanfodol i godi proffil Cymru fel cenedl fach, greadigol, yn llawn pobl ddawnus a chyfeillgar ar lwyfan y byd.

Mae gan Gymru hanes hir a balch o groesawu pobl o bedwar ban byd i fyw a gweithio yma. Mae llawer o'n cymunedau a'n busnesau yn ffynnu diolch i bobl a ddaeth i Gymru o wledydd tramor. Rydym am weld hynny'n parhau, yn enwedig yn y byd ansicr sydd ohoni ar ôl refferendwm yr UE.

Mae dinasyddion o wledydd yr UE yn chwarae rhan hynod o bwysig a gwerthfawr yn ein cymdeithas, yn y gweithle ac yn ein bywydau beunyddiol. Wrth i'r dyddiad pryd y mae'r Deyrnas Unedig i fod i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd nesáu, sef 31 Hydref 2019, fe fyddwn ni'n helpu gwladolion yr UE i wneud cais am statws preswlydd sefydlog i sicrhau eu hawliau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i roi cymorth a chynghor i ddinasyddion yr UE yn ystod y cyfnod hwn.

Y gweithlu yng Nghymru o'r UE a gwledydd tramor

- Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 176,600 o bobl a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn byw yng Nghymru, gan gynnwys 79,100 o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Mae'r mwyafrif yn gweithio, yn ein sectorau economaidd allweddol, y gwasanaethau cyhoeddus neu sefydliadau addysg uwch, ac yn cyfrannu'n fawr at ein cymdeithas.
- Ymfudwyr yw 11% o'r gweithlu twristiaeth yng Nghymru (mae 5% o'r gweithlu yn dod o'r UE);
- Mae 9% o'r gweithlu gweithgynhyrchu yng Nghymru yn dod o wledydd tramor (mae 7% yn dod o'r UE). Mae cyfran lai o weithlu'r sector adeiladu yng Nghymru yn dod o wledydd tramor (3% i gyd, gyda 2% o'r gweithlu â'u cefndir yn yr UE).
- Mae'r sector bwyd a diodydd yn dibynnu'n fawr ar weithwyr mudol i lenwi swyddi mewn prosesu bwyd gyda mwy na chwarter (27%) o'r rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru wedi'u geni yn yr UE.

- Mae'r GIG yng Nghymru yn dibynnu ar weithwyr o'r UE ar bob lefel. Ym mis Mawrth 2019, roedd 1,570 o wladolion yr UE yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru, gyda 6% o'r meddygon sy'n gweithio yng Nghymru yn dod o'r UE.
- Yn y sector gofal cymdeithasol, er nad oes data penodol ar gael ar gyfer Cymru, mae ymchwil ddiweddar yn dangos mai gwladolion o'r UE yw tua 6.4% o'r gweithlu (2,900).
- Mae 12% (2,365) o staff addysg uwch wedi'u geni mewn gwledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig (mae 7% neu 1,425 yn dod o'r UE) ac mae staff o wledydd tramor yn allweddol i sicrhau ansawdd yr ymchwilio a'r addysgu ym mhrifysgolion Cymru, yn ogystal â hwyluso ymchwil ryngwladol gydweithredol. Mae rhyw 17% o'r myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dod o wledydd tramor (yr UE a'r tu allan i'r UE) ac yn ffynhonnell sylweddol o incwm i'r sefydliadau hyn, gan helpu i gynnal amrywiaeth eang o gyrsiau, yn enwedig ar lefel ôl-raddedig.



Nick Razez, Prif Weithredwr, Next Generation Data, Casnewydd



SEREN A STREIPIAU I BOBL IFANC DRWY GYNLLUN IVY LEAGUE LLYWODRAETH CYMRU

Mae mwy o fyfyrwyr o Gymru wedi ymrestru yn rhaglen Ysgolheigion Byd-eang Prifysgol Yale nag unrhyw genedl neu ranbarth y tu allan i'r Unol Daleithiau.

Gan adeiladu ar lwyddiant Rhwydwaith Seren wrth gynyddu nifer y disgyblion o ysgolion gwladol Cymru a wnaeth gais i Rydychen a Chaergrawnt ac a gafodd eu derbyn yno, mae'r rhwydwaith wedi creu partneriaeth â phrifysgolion gorau'r Unol Daleithiau, megis Yale a Harvard.

Yn haf 2019, bydd y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr, sef 53, yn cymryd rhan mewn ysgol haf yn yr Unol Daleithiau, ac yn treulio pythefnos ym Mhrifysgolion Yale neu Harvard i gael blas ar fywyd prifysgol yn yr Unol Daleithiau.

Bydd y llysgenhadon ifanc o Gymru'n mwynhau profiad bywyd trawsnewidiol ac yn helpu i hybu Cymru a'u haddysg ragorol eu hunain i gyfoedion ac academyddion o bob rhan o'r byd tra byddan nhw yn sefydliadau'r Ivy League.

Mae myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan yn yr ysgolion haf wedi mynd ymlaen i ennill lleoedd i israddedigion yn Yale, Harvard a Stanford ac yn cadw cysylltiad â Chymru drwy Rwydwaith Seren.

Yn ddiweddar Cymru oedd yr 17eg wlad yn unig i gymryd rhan yn rhaglen Labordai Addysgu Byd-eang Athrofa Technoleg Massachusetts (MIT).

Mae'r rhaglen hon yn helpu myfyrwyr gwyddoniaeth MIT i dreulio amser yng Nghymru yn cefnogi athrawon a disgyblion gwyddoniaeth mewn ysgolion.

Mae llwyddiant y myfyrwyr a'r cyfnwdfeydd academiaidd hyn wedi arwain at bartneriaethau addysgol arloesol rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau gyda Chomisiwn Fulbright a Rhaglen Ysgoloriaethau Ryngwladol Gilman, gan sicrhau y bydd mwy o fyfyrwyr o'r Unol Daleithiau yn dod i Gymru, a sicrhau bod Cymru'n cael ei hybu fel rhywle i astudio ar draws yr Unol Daleithiau, a sefydlu cysylltiadau ymchwil newydd i brifysgolion Cymru.

CYNIGION YMFUDO AR ÔL YR UE¹

Mae cynaliadwyedd rhai o'n gwasanaethau a'n diwydiannau allweddol yn dibynnu ar gyfraniadau preswylwyr tramor sydd wedi gwneud eu cartref yng Nghymru.

Rydyn ni o'r farn mai'r ffordd orau i ateb buddiannau Cymru yw i'r Deyrnas Unedig barhau'n aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ond os bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r UE ar 31 Hydref 2019, fe ddylai'n perthynas ag Ewrop yn y dyfodol gynnwys ymagwedd wahanol a ffafriol at fewnfudo i wladolion yr AEE a'r Swistir. Ni ddylai ymadael â'r UE effeithio ar drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin (CTA), sy'n bodoli ers 1922, yn y cyfnod cyn i'r Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon ddod yn aelodau o'r UE.

Os bydd y Deyrnas Unedig yn penderfynu mabwysiadu dull mewnfudo sy'n ffafrio sectorau penodol ar lefel y Deyrnas Unedig, rydym yn credu y gallai hynny osod Cymru o dan anfantais ddifrifol drwy ei gwneud yn anodd iawn recriwtio i sectorau lle mae gennyn ni alw mawr am weithwyr mudol ar hyn o bryd.

Byddem yn gadarn yn erbyn dull gweithredu o'r fath. Yn hytrach, byddai'n well gennyn ni weld dull a fyddai'n gwahaniaethu yn ôl lle, lle byddai gan Lywodraeth Cymru rôl gryfach o ran penderfynu sut i reoli ymfudiad i Gymru yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod sectorau, gwasanaethau cyhoeddus a phrifysgolion allweddol Cymru'n dal yn gallu recriwtio o Ewrop. Rhaid i unrhyw ddull o'r fath gael ei seilio ar degwch, gorfodi'r rheolau'n briodol a gweinyddiaeth gymesur.



Flamgard, Pontypool

Mae hunangyflogaeth yn rhan hanfodol o'n cymysgedd economaidd a rhaid cynnwys trefniadau priodol mewn unrhyw system fewnfudo newydd. Mae angen rheolaeth ofalus i sicrhau bod ymfudwyr sy'n bwriadu gweithio ar sail hunangyflogedig yn gwneud hynny yn unol â rheolau clir er mwyn atal yr arfer gamfanteisiol o hunangyflogaeth ffug, neu fathau eraill o gamddefnyddio'r system. Rhaid mynd i'r afael yn egniol ag unrhyw gamdriniaeth neu gamfanteisio.

Ni ddylai myfyrwyr gael eu cyfrif fel ymfudwyr at ddiobenion targedau ymfudo net: maent yn dod i astudio, yn talu ffioedd, yn gwario arian, yn gwella'n prifysgolion a'n heconomi, ac mae'r mwyafrif yn dychwelyd adref. Nid ydym am weld cyfyngiadau mewnfudo ychwanegol i fyfyrwyr o'r UE, yr AEE a'r Swistir.

Mae pobl o Gymru wedi ymfudo ledled y byd, o fordaith y *Mimosa*, a sefydlodd y wladfa Gymraeg ei hiaith ym Mhatagonia dros 150 mlynedd yn ôl, i'r 1.8m o bobl o dras Gymreig yn yr Unol Daleithiau heddiw. Mae diaspora'r Cymry yn fawr ac amrywiol ac mae'n gaffaeliad amhrisiadwy mewn cysylltiadau rhyngwladol ac i hybu Cymru i'r byd.

Byddwn yn gwneud mwy i ymgysylltu â'r Cymry alltud a chyfeillion Cymru ledled y byd, gan gynnwys defnyddio'r doreth o wybodaeth a chysylltiadau sydd gan bobl sy'n mewnfudo i Gymru.

Byddwn yn cydweithio â rhwydweithiau'r Cymry ar wasgar sydd eisoes wedi'u sefydlu, fel Global Welsh, Wythnos Cymru yn Llundain, ac eraill i helpu i godi proffil Cymru, datblygu economi Cymru a chefnogi allforwyr Cymru fel rhan o'r strategaeth hon. .

Fe fyddwn:

- Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy hybu Cymru fel cenedl groesawgar a thrwy ganolbwyntio bob blwyddyn ar un o'n cymunedau mewnfudwyr, gan hybu'n dyhead i fod yn genedl noddfa. Byddwn yn cynnal digwyddiad blynyddol sy'n cydnabod cyfraniadau cymuned dramor sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru gan ddatlu'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r famwlad.
- Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy ddefnyddio Cwricwlwm Cymru 2022 fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn deall ac yn gwerthfawrogi effaith bresennol a hanesyddol y byd ehangach gan sicrhau eu bod yn parhau â thraddodiad creadigol

¹<https://llyw.cymru/sites/default/files/2018-01/180202-y-polisi-masnach-materion-cymru.PDF>



HYFFORDDIGWEITHIOBYW

HyfforddiGweithioByw yw prif ymgyrch Llywodraeth Cymru i helpu i recriwtio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i GIG Cymru. Mae'n hybu'r amgylchedd hyfforddi a gweithio o'r radd flaenaf sydd gan GIG Cymru i'w gynnig a'r ansawdd bywyd sydd ar gael yng Nghymru.

Mae'r ymgyrch wedi'i defnyddio gan fyrdau iechyd ledled Cymru i ategu ymgyrchoedd recriwtio ledled y byd.

Mae'r ymgyrch feddygol wedi targedu myfyrwyr meddygol, hyfforddeion, meddygon teulu sydd newydd ennill eu cymhwyster a meddygon teulu sy'n agosáu at ymddeol yn gweithio yn y Deyrnas Unedig, India, Awstralia, Seland Newydd a Chanada i'w perswadio i ddo i gwblhau eu hyfforddiant yng Nghymru; i weithio yng Nghymru ac i fyw yng Nghymru, yn y drefn honno.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae ymgyrch benodol wedi rhedeg yn yr un gwledydd rhyngwladol i recriwtio myfyrwyr a hyfforddeion seiciatreg a seiciatryddion cymwysedig.

Mae'r ymgyrch nyrsio yn rhedeg ers 2017 ac i ddechrau bu'n targedu nyrsys mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn y Deyrnas Unedig, India, Canada, România, Seland Newydd ac Awstralia. Caiff cyfnod nesaf yr ymgyrch ryngwladol ei lansio ym mis Ionawr 2020, i gyd-fynd â gwaith recriwtio rhyngwladol y byrdau iechyd. Caiff y gwledydd sydd i'w targedu eu cadarnhau gan grŵp rhanddeiliaid ond fe allen nhw gynnwys India, Ynysoedd y Philipinos ac Awstralia..

Cymru ac wedi'u harfogi â'r sgiliau cywir i gystadlu yn yr economi byd-eang, gan gynnwys annog disgyblion i ddysgu ieithoedd modern.

- Yn tyfu'n heconomi drwy gydweithio â sefydliadau addysg i gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru a byddwn yn pwyso am barhau i gymryd rhan yn Erasmus+ a Horizon 2020 (ac unrhyw raglenni dilynol, gan ymestyn hyn i gynnwys rhaglenni cydweithredu rhyngwladol megis INTERREG ac Ewrop Greadigol).
- Yn tyfu'n heconomi drwy hybu cydweithredu rhyngwladol mewn ymchwil fyd-eang, lle bo'n briodol, gan danlinellu'r effaith arwyddocaol y mae ymchwil Cymru yn ei chael o'i chymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill.
- Yn codi proffil Cymru drwy ystyried gyda Sefydliadau Conffiwsiwys a Chanolfannau Tsieineaidd ledled Cymru, pa mor ymarferol yw addysgu Mandarin mewn ysgolion uwchradd fel rhan o weledigaeth hirdymor i sefydlu'r Gogledd a'r Gorllewin fel cyrchfannau i ymwelwyr o Tsieina.

- Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy gynyddu ymwybyddiaeth fyd-eang o Gymru fel cenedl ddwyieithog a defnyddio Blwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO i ddangos sut rydym yn bwriadu cynyddu'r niferoedd sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg a sicrhau bod gwaddol yn datblygu o ganlyniad i hynny. Byddwn yn rhannu'n llwyddiant gyda gwledydd eraill.
- Yn codi proffil Cymru drwy weithio gyda'r Cymry alltud a chydweithio â sefydliadau partner, gan ganolbwyntio yn y flwyddyn gyntaf ar yr Unol Daleithiau ac adnabod Cymry dylanwadol ledled y byd.
- Yn codi proffil Cymru drwy weithio gyda phartneriaid i hybu'n diwydiannau creadigol ac eraill yn Asia a byddwn yn cydweithio â'r diaspora Asiaidd yng Nghymru i ddatblygu cysylltiadau agosach ym meysydd ymchwil a meddygaeth gan ddefnyddio'r Ganolfan Gynadledda Ryngwladol i dynnu sylw at Gymru
- Yn codi proffil Cymru drwy fapio'r diaspora Cymreig, yn yr Unol Daleithiau a Japan i ddechrau, a byddwn yn mapio gweithgarwch rhyngwladol

Cymru ledled y byd (gan gynnwys sefydliadau cymunedol ac elusenol lleol) i ddatblygu cronfa ddata gynhwysfawr o gysylltiadau'r Cymry.

- Yn codi proffil Cymru drwy hybu Cymru yn rhyngwladol fel lle i hyfforddi, gweithio a byw i weithwyr ieuchyd a gofal.
- Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy gynyddu'n cyfranogiad yn yr astudiaeth Ymddygiad Iechyd Plant o Oedran Ysgol.
- Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy gydweithio â Fietnam i feithrin ei seilwaith addysgol drwy gyfleoedd hyfforddi, ymchwilio, cydweithredu a chyfnewidfydd academaidd.
- Yn codi proffil Cymru drwy gydlynu'n gweithgarwch rhyngwladol gyda sefydliadau diwylliannol allweddol i helpu i agor drysau a chyrraedd marchnadoedd anodd.



Bang, Caerdydd



Riversimple, Llandridnod

EIN TRI NOD ALLWEDDOL YW:

Codi proffil Cymru'n rhyngwladol – byddwn yn adeiladu enw da ein gwlad fel man sy'n fwrlwm o greadigrwydd a lle mae pobl yn rhydd i arloesi ac arbrofi.

Cynyddu'n hallforion a hybu buddsoddi o'r tu allan, gan ehangu'n heconomi a chreu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru – rydym wedi ymrwymo i gofleidio a datblygu technoleg newydd i sicrhau ffyniant.

Dangos i'r byd yr hyn rydym yn ei wneud fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau byd-eang ac amgylcheddol. Mae'n gwerthoedd cryf mewn cynaliadwydd yn sail i'r strategaeth hon a phopeth a wnawn.

Mae Cymru yn wlad sy'n wynebu tuag allan, yn masnachu'n fyd-eang ac yn sicr yn dal yn agored ar gyfer busnes. Mae'n heconomi'n ffyniannus ac amrywiol, ac yn cynnig cyfleoedd gwych i fasnachu a buddsoddi. Rydym yn gartref i gwmnïau technoleg sy'n arwain y byd, cyfleusterau ymchwilio a datblygu rhagorol, gweithlu medrus iawn a thoreth o adnoddau naturiol.

Mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n agos ag economi'r Deyrnas Unedig, ond rydym yn gwerthu'n cynhyrchion rhagorol sydd wedi ennill gwobrau nid yn unig i weddill y Deyrnas Unedig, ond ledled y byd. Mae gweithgareddau rhyngwladol Cymru'n cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru, ac un o nodau allweddol y strategaeth hon yw cynyddu'n hallforion a hybu buddsoddiadau o'r tu allan, gan gefnogi economi Cymru a chreu mwy o gyfleoedd am swyddi yng Nghymru.

Mae'n llywodraeth ddatganoledig sefydlog a'n gweledigaeth ar gyfer twf a byw yn gynaliadwy, ynghyd â'n cysylltiadau cryf â gweddill y Deyrnas Unedig; ansawdd bywyd; costau byw is, o'u cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'n gweithlu cymwys a medrus, yn helpu Cymru i ddenu buddsoddiadau o'r tu allan a buddsoddiadau tramor uniongyrchol.

- £17.2bn oedd gwerth allforion Cymru yn y flwyddyn yn diwedd Mawrth 2019. Mae hyn yn cefnogi swyddi, arloesi a ffyniant ledled Cymru. Aeth mwy na 60% o'r allforion hyn i wledydd yr UE.
- Yn 2018, o'r 259,200 o fentrau byw a oedd yn gweithredu yng Nghymru, roedd gan 103,530 bencadlys yng Nghymru, sef y lefel uchaf ers dechrau cadw cofnodion.
- Mae bron 1,250 o gwmnïau mewn perchnogaeth dramor yn galw Cymru'n gartref, ac yn cyflogi mwy na 160,000 o bobl. Mae llwyddiant

Cymru wrth ddenu buddsoddiadau uniongyrchol o wledydd tramor dros sawl degawd wedi'i seilio i raddau helaeth ar fynediad i farchnad yr UE o fwy na 500 miliwn o gwsmeriaid.

- Yn 2018, roedd twristiaeth o wledydd tramor yn werth £405m i economi Cymru.
- Mae myfyrwyr tramor mewn prifysgolion yng Nghymru yn cyfrannu mwy na £600m o enillion allforio i economi Cymru ac yn cyfoethogi'n hamrywiaeth diwylliannol.

Rydym yn masnachu gyda'r byd ac yn meithrin perthnasoedd newydd mewn cyfnod o gryn newid ac ansicrwydd. Mae hyn yn deillio i raddau helaeth o ansicrwydd Brexit yn sgil penderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r UE a'r negodi parhaus i sicrhau cytundeb ymadael.


Ond mae'n codi hefyd o'r cythrwfl mewn perthnasoedd masnach byd a oedd gynt yn sefydlog, ac sy'n yn cael eu hysgwyd gan y rhyfel masnach presennol rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina a'r tariffau dwyochrog cynyddol.

Hefyd, mae myfyrwyr o wledydd tramor yn cynhyrchu rhyw £600m y flwyddyn mewn allforion addysg.

Ymadael â'r UE yw'r newid mwyaf yn ein statws masnachu rhyngwladol ers cenedlaethau. Beth bynnag fo'r heriau, rydym yn glir nad yw ymadael â'r UE yn golygu troi'n cefn ar ein partneriaid masnachu yn Ewrop. Yn yr un modd, dylem groesawu'r ysgogiad newydd ar gyfer cyfleoedd masnachu ledled y byd.



- a - Gwlad Belg
- b - Ffrance
- c - Yr Almaen
- d - Iwerddon
- e - Yr Iseldiroedd
- f - Sbaen
- g - Tsieina
- h - Yr Emiradau Arabaidd Unedig
- i - Canada
- j - Unol Daleithiau America



- a - Bwyd ac anifeiliaid byw - 3%
- b - Diodydd a thybaco - 0%
- c - Deunyddiau crai, anfwytadwy, ac eithrio tanwyddau - 1%
- d - Tanwyddau mwynol, ireidiau a deunyddiau perthynol - 13%
- e - Olewydd anifeiliaid a llysiâu, brasterau a chwyrau - 0%
- f - Cemegolion a chynhyrchion perthynol, heb eu pennu mewn man arall - 11%
- g - Nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a ddsbarthir yn bennaf yn ôl deunyddiau - 13%
- h - Peiriannau ac offer trafniadaeth - 50%
- i - Amrywiol eitemau wedi'u gweithgynhyrchu - 8%
- j - Cynwyddau/trafodiadau sydd heb eu dosbarthu mewn man arall yn yr SITC - 1%

² Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yng ngogledd America a'r UE y mae'n prif bartneriaid masnachu (gweler y siart). Rydym yn ceisio torri i mewn hefyd i farchnadoedd newydd yn Asia: bydd Tsieina yn codi'r gwaharddiad ar gig eidion o Brydain ar ddiwedd 2019, er enghraifft, gan baratoi'r ffordd i gig eidion PGI o Gymru sicrhau troedle yn y farchnad Tsieineaidd. Ar hyn o bryd, mae mwy na thraean o gig coch Cymru yn cael ei allforio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn bennaf i'r UE, sy'n werth tua £200 miliwn y flwyddyn. Tsieina yw un o farchnadoedd allforio fwyaf y Deyrnas Unedig o ran bwyd a diod. Gallai allforion cig eidion o Gymru i Tsieina fod yn werth tua £25m y flwyddyn i sector cig coch Cymru.

Mae allforion i'r Dwyrain Canol, yn enwedig yn y sector bwyd a diod, yn creu cyfleoedd newydd i gwmnïau o Gymru. Mae yna farchnad defnyddwyr cynyddol yn y rhan hon o'r byd, sydd â diddordeb mewn cynhyrchion o safon o Gymru, gydag allforion bwyd i Qatar yn unig yn cynyddu saith gwaith ers 2016.

Gallai rhanbarth y Gwlff fod yn farchnad amgen hyfyw i allforwyr sydd fel arfer yn dibynnu ar Ewrop.

Does dim modd anwybyddu'r shift economaidd fyd-eang o'r gorllewin i'r dwyrain a chynnydd economi Asia yn ei sgil. Mae poblogaeth sy'n heneiddio a dirywiad y farchnad ddomestig yn Japan yn golygu bod cwmnïau o Japan yn edrych dros y môr i ategu eu cynlluniau ehangu a Tsieina hitheu'n cynnig cyfleoedd newydd i allforwyr o Gymru, wrth i fyfyrwyr Tsieineaidd ddod i astudio yng Nghymru.

Bydd canlyniad y negodi sydd ar ei hanner gyda'r UE a'r berthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon. Bydd y penderfyniadau a gymerir wrth i'r Deyrnas Unedig fagu cysylltiadau masnachu gyda'r UE a gweddill y byd yn y dyfodol yn diffinio buddiannau economaidd Cymru am flynyddoedd i ddod.

Rydym wedi bod yn glir iawn y byddai Brexit heb gytundeb yn drychineb i Gymru ac i fusnesau sy'n allforio i'r UE a gwledydd tramor. Gallai unrhyw oedi mân wrth allforio gael effaith ddinistriol ar y cysylltiadau masnach rydyn ni wedi'u sefydlu ac ar yn ein gallu i wneud rhai newydd.

Rydym o'r farn mai'r ffordd orau i ateb buddiannau Cymru yw i'r Deyrnas Unedig barhau'n aelod-wladwriaeth o'r UE. Er hynny, os bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael, rydym wedi dadlau o blaid parhau â mynediad llawn a dilyffethair i Farchnad Sengl Ewrop. Rydym yn dal heb ein hargyhoeddi bod gadael undeb tollau gyda'r UE o fudd inni, o leiaf yn y dyfodol agos. Os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dilyn ei pholisi o ymadael â'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau er mwyn cael polisi masnach hollol annibynnol bydd hynny'n creu perygl o osod rhwystrau heblaw tariffau ac, o bosibl gosod tariffau, a fyddai'n sicr o niweidio busnes yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.³

Bydd ein swyddfa ym Mrwsel yn dal i fod yn llwyfan i'n hymgylltiad â'r UE. Yn 2018, agorodd Llywodraeth Cymru swyddfeydd ym Merlin, Düsseldorf a Pharis. Mae'r rhain yn adlewyrchu pwysigrwydd Ffrainc a'r Almaen fel partneriaid masnachu a'r angen i weithio gyda nhw a chynnal ein perthnasoedd yn sgil yr ansicrwydd y mae Brexit wedi'i greu.

Mae magu perthynas newydd yn cymryd amser hir, a dyna pam y bydd yn bwysig cadw a meithrin y rhai presennol, waeth beth fydd canlyniad Brexit. Yr Almaen yw partner masnachu mwyaf Cymru a phartner arwyddocaol o ran buddsoddi; mae Ffrainc yn bartner pwysig o ran masnach, twristiaeth, addysg a diwylliant ac Iwerddon yw'n cymydog Ewropeaidd agosaf o hyd. Gwladolion o'r Almaen ac Iwerddon sy'n byw yng Nghymru yw dwy o'n cymunedau rhyngwladol mwyaf. Mae pob un yn bartneriaid masnachu pwysig y mae gennym gysylltiadau sefydlog gyda nhw ers tro byd, a'r rheiny'n ymestyn y tu hwnt i fasnach yn unig (gweler Atodiad B).



Huntingdon Fusion Technologies ym Mhorth Tywyn

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/2018-01/180202-y-polisi-masnach-materion-cymru.PDF>

Ers rhai blynyddoedd, mae gan Lywodraeth Cymru swyddfa yn Nulyn er mwyn cydnabod pwysigrwydd arbennig y berthynas hon. Roeddem yn falch iawn o weld Consiliaeth Iwerddon yn ailagor ei swyddfa yng Nghymru ym mis Mai 2019 a byddwn yn annog gwledydd eraill i ddilyn eu hesiampl. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi gwaith y conswliaid anrhydeddus yng Nghymru. Rydym ninnau wedi agor swyddfeydd newydd ym Montreal a Doha, i gydnabod ein cysylltiadau â Gogledd America a'r Dwyrain Canol (gweler Atodiad C i gael y manylion).

MASNACH A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Sylfaen polisi masnach Cymru yw ein gwerthoedd craidd, sef parchu a diogelu hawliau dynol; ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang parhaus a diogelu'n gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu cyfres o egwyddorion wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig chwilio am gytundebau masnach ar ôl Brexit ar ran holl wledydd y Deyrnas Unedig.

Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

- Sicrhau polisi masnach sy'n gweithio i bob rhan o'r Deyrnas Unedig.
- Ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig a gofyn eu cydsyniad wrth ddatblygu polisi masnach i'r Deyrnas Unedig.
- Gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig ar fframwaith masnach.
- Ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig yn ystod y cyfnod cyn negodi gan sicrhau bod yna gyfle gwirioneddol i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu at y broses datblygu polisi cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud a chyn i'r gwaith negodi â'r UE neu drydedd wlad ddechrau.

- Beidio â bwrw ymlaen fel arfer â safbwyntiau negodi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pholisiau datganoledig (er enghraifft, safonau amgylcheddol, amaethyddiaeth a physgodfeydd, cyflawni gwasanaethau cyhoeddus fel addysg ac iechyd) heb gytundeb y llywodraethau datganoledig.
- Ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig drwy gydol y gwaith negodi, a chynnwys swyddogion o'r llywodraethau datganoledig yn y timau negodi lle mae'r negodi'n effeithio ar gymwyseddau datganoledig neu faterion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru neu'r gwledydd datganoledig eraill.
- Ymgynghori'n ffurfiol â'r sefydliadau datganoledig pan fydd y gwaith negodi ar ben ond cyn i gytundebau gael eu llofnodi.

Yn gyfnewid am hyn, fe fyddwn ni:

- Yn bartner adeiladol.
- Yn rhannu gwybodaeth a dadansoddiadau.
- Yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi arweinyddiaeth i'r rhanddeiliaid perthnasol.
- Yn gweithio'n adeiladol gan ddefnyddio'n rhwydweithiau tramor i hybu a diogelu buddiannau Cymru a'r Deyrnas Unedig ehangach.
- Yn adlewyrchu safbwyntiau negodi cytûn y Deyrnas Unedig wrth gymryd rhan mewn timau negodi.

O ran cysylltiadau rhyngwladol, rydym yn credu y dylai Cymru, a gweinidogion a swyddogion o'r gweinyddiaethau datganoledig, gael eu cynnwys mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch llunio safbwynt polisi'r Deyrnas Unedig ar faterion a allai fod yn destun gwaith negodi rhyngwladol, yn arbennig lle gallai'r rhain fod â goblygiadau pwysig ar gyfer materion datganoledig.



Orangebox, Caerdydd

Dylai'r cwestiwn sut i roi rhwymedigaethau sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar waith o fewn y cymwyseddau datganoledig, fod yn fater i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig ei ystyried, gan gynnwys a ddylai'r sefydliadau datganoledig weithredu'r rhain drwy eu deddfwriaeth eu hunain ynteu cytuno i gael eu cynnwys yn neddffwriaeth y Deyrnas Unedig.

Ni ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fwrw ymlaen fel arfer â mandad negodi ar faterion datganoledig sydd heb gael ei gytuno gyda'r sefydliadau datganoledig perthnasol.

Mae Cymru wedi croesawu ac wedi cefnogi busnesau o bob rhan o'r byd, gan eu helpu i ddatblygu, tyfu a gwireddu eu potensial llawn.

Mae'r Unol Daleithiau, a marchnad ehangach Gogledd America, yn fuddsoddwr pwysig yng Nghymru. O'r 1,245 o gwmnïau tramor sy'n gweithredu yng Nghymru, mae mwy nag 20% yn perthyn i'r Unol Daleithiau a'r Unol Daleithiau sydd ar frig y rhestr

o farchnadoedd buddsoddi o'r tu allan yn gyson. Mae graddfa economïau'r Unol Daleithiau a Chanada yn golygu bod cyfleoedd yn gallu codi mewn unrhyw sector ac unrhyw ranbarth bron.

Y 10 MARCHNAD FDI UCHAF⁴

1	UDA
2	Yr Almaen
3	Japan
4	Canada
5	Iwerddon
6	Ffrainc
7	India
8	Yr Eidal
9	Sbaen
10	Y Swistir

Rydym yn credu bod penderfyniadau buddsoddi'n ymwneud â mwy na manteision economaidd yn unig: erbyn hyn mae ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn chwarae rôl gynyddol mewn penderfyniadau buddsoddi. Mae'n *Contract Economaidd* yn gosod buddsoddiad sydd â phwrpas cymdeithasol wrth ei galon.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar greu a hybu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer twf busnes yng Nghymru, gan ddefnyddio "magnetau" fel cyfleoedd i fusnesau ac fel modd i godi enw da Cymru ar sail ein hasedau, ein sgiliau a'n gallu o ran ymchwilio a datblygu.

Bydd prosiectau "magnet", fel Canolfan Ymchwil Weithgynhyrchu Uwch Cymru, yn y Gogledd, y Ganolfan Ragoriaeth Reilffyrdd Fyd-eang a Chanolfan Gatapwlt y Deyrnas Unedig yn y De a'r Ganolfan Gynadledda Ryngwladol

newydd yng Nghasnewydd yn cael eu defnyddio fel catalyddion i ddenu rhagor o fuddsoddiadau ac yn hybu Cymru fel lle i brofi technolegau arloesol y dyfodol.⁵

Wrth inni symud i ffwrdd o'r hen ddibyniaeth ar ddiwydiant trwm i ddod yn economi fodern, fywiog, mae angen i Gymru ddangos wyneb newydd i'r byd: un sy'n fodern, yn fywiog ac yn gyfoes. Fel rhan o hyn, bydd y strategaeth yn tynnu sylw at dri maes gwahanol lle mae Cymru'n rhagori, seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a chynhyrchu ffilm a theledu, fel ffordd i amlygu'r ystod o gyfleoedd sydd gan Gymru i'w cynnig.

DATBLYGU CANOLFANAU RHAGORIAETH

Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn amlygu tri diwydiant penodol y mae Cymru'n rhagori ynddynt, gan ddangos bod Cymru'n gartref i ganolfannau rhagoriaeth yn y meysydd hyn. Drwy dynnu sylw at y cyfleoedd i allforio a buddsoddi yn y diwydiannau hyn ac eraill, byddwn yn creu cyfleoedd newydd ac ehangach i bobl a chyflogaeth yng Nghymru, gan roi hwb i ymchwilio a datblygu ac arloesi er mwyn cynnal cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Bydd y rhain yn ein helpu i dynnu sylw'r byd ehangach at y sgiliau sydd ar gael yng Nghymru ac amrywiaeth ein sector gweithgynhyrchu a'n sector creadigol. Dyma'r meysydd yr ydym wedi dewis eu hamlygu fel canolfannau rhagoriaeth fel rhan o'r strategaeth hon:

- **Seiberddiogelwch**
- **Lled-ddargludyddion cyfansawdd**
- **Y diwydiannu creadigol** – teledu a ffilm

Dyma feysydd lle mae'r arbenigedd ar gael yng Nghymru eisoes, lle mae

cwmnïau eisoes ar flaen y gad o ran cynhyrchu a datblygu. Mae yma sylfaen gadarn y gallwn adeiladu mwy o ragoriaeth arni yn y tri maes penodol hyn, yn wyneb heriau Brexit.

Seiberddiogelwch – mae Cymru yn rhan o'r brif ganolfan Ewropeaidd mewn seiberddiogelwch gyda mwy na 500 o aelodau yn yr ecosystem seiberddiogelwch. Mae'r clwstwr cynyddol ar ei ennill o fod yn agos i GCHQ ac arbenigedd yn ne-orllewin Lloegr.

Yn 2017, i gydnabod ein henw da a'n harbenigedd cynyddol, cafodd Cymru ei gwahodd i ymuno ag ecosystem fyd-eang y Bartneriaeth Ecosystemau mewn Arloesi a Seiberddiogelwch (EPIC Byd-eang), a sefydlwyd i adeiladu cymuned fyd-eang o arbenigedd i helpu i ddatblygu a rhannu gwybodaeth newydd ym maes seiberddiogelwch arloesol. Mae EPIC Byd-eang ar hyn o bryd yn cynnwys 25 o ecosystemau byd-eang o 10 o wledydd gwahanol ar draws tri chyfandir.

Lled-ddargludyddion cyfansawdd – Mae lled-ddargludyddion cyfansawdd wrth galon llawer o'r dyfeisiau y byddwn yn eu defnyddio heddiw, o ffonau clyfar i lechi a systemau cyfathrebu lloeren. Maent yn ganolog i ddatblygiad y rhwydwaith 5G a goleuadau newydd effeithlon iawn a byddant yn pweru electroneg i'r genhedlaeth nesaf o gerbydau trydan a thechnegau delweddu newydd at amryw o ddibenion o ddiogelwch i ddiagnosteg iechyd. Gallai'r farchnad fyd-eang mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd fod yn werth £125bn erbyn 2020. Cymru yw cartref Canolfan Catapwlt y Deyrnas Unedig ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Cafodd y cyfleuster haenellau lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd gefnogaeth gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Daw'n hwb ar gyfer y clwstwr technoleg rhanbarthol, CSconnected.

⁴Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Perfformiad agrededig buddsoddiadau o'r tu allan 2013-14 i 2017-1

⁵Ceir enghreifftiau o brosiectau magnet yn Atodiad E



BWYD A DIOD CYMRU

Mae sector bwyd a diod Cymru yn sicrhau cydnabyddiaeth gynyddol ar sail ei ansawdd a'i amrywiaeth, sy'n cyfrannu at gydnabyddiaeth ryngwladol gref.

Roedd allforion bwyd a diod Cymru yn 2018 yn werth £539m, sef cynnydd o 2% (£10m) o'i gymharu â 2017.

Mae gwerth allforion bwyd a diod Cymru wedi codi 32% ers 2014.

Cododd gwerth allforion bwyd a diod Cymru i wledydd y tu allan i'r UE £25m yn 2018.

Aeth £145m o allforion i wledydd y tu allan i'r UE yn 2018.

Cafwyd gostyngiad o £14m yn allforion bwyd a diod Cymru i'r UE yn 2018. Aeth £395m o allforion bwyd a diod Cymru i'r Undeb Ewropeaidd yn 2018.

Allforion i wledydd yr UE yw 73% o holl allforion bwyd a diod Cymru.

Roedd y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio yn werth £6.8bn yn 2018, yn agos at gyrraedd y targed trosiant o £7bn yn gynnar cyn 2020.

Mae 16 o Enwau Bwyd Gwarchoddedig, sy'n amrywio o Gig Oen a Chig Eidion Cymru i Gregyn Gleision Conwy, a 169 o Enillwyr y Blas Mawr (2018).

Mae gan y gadwyn gyflenwi bwyd a diod drosiant o £19.1bn gan gyflogi 240,200 ar draws arlwyyo, manwerthu

a chyfanwerthu, amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu.

Mae gan y gadwyn gyflenwi CVA o £4.5bn.

Mae gan weithgynhyrchu bwyd a diod drosiant o £4.8bn ac mae'n cyflogi 20,400.

Blas Cymru yw'r digwyddiad masnach rhyngwladol mwyaf mewn bwyd a diod yng Nghymru, ac mae'n dwyn ynghyd gynhyrchwyr, prynwyr a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant bwyd. Denodd y digwyddiad eleni, ym mis Mawrth 2019, bron 200 o brynwyr, gan gynnwys prynwyr rhyngwladol o'r Almaen, Ffrainc, yr UAE, Qatar a Japan.

Mae yna gysylltiadau cryf â Chanolfan Ymchwil Weithgynhyrchu Uwch Cymru (AMRC) yn y Gogledd, a fydd yn gartref i ymchwil sy'n arwain y byd mewn peiriannu, gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch ac yn ganolfan i'r prosiect Adenydd Yfory. Mae'r ganolfan yn cynnwys buddsoddiad o £20m gan Lywodraeth Cymru.

Y diwydiannau creadigol: teledu a ffilm

– Y diwydiannau creadigol yw un o'r sectorau cyflymaf ei dwf yng Nghymru, gyda throsiant blynyddol o bron £2bn, ac maen nhw'n cyflogi mwy na 58,000 o bobl. Eisoes mae gan Gymru enw da yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu drama deledu o safon, yn arbennig am fod stiwdios mawr yr Unol Daleithiau fel Fox, NBC Universal, Netflix ac HBO yn defnyddio Cymru fel lleoliad cynhyrchu. Mae gan Gymru hunaniaeth ddiwylliannol gref hefyd sy'n cael ei phortreadu drwy gynrychiadau fel *Hinterland*, *Keeping Faith* a *Hidden*, ac mewn rhaglenni teledu sy'n enwog yn rhyngwladol gan gynnwys *Doctor Who* a *Sherlock*.

Dyma lwyfan i adeiladu rhagor o lwyddiant arno, ond hefyd i gynnig cyfle i ddangos Cymru i'r byd, hybu'r Gymraeg a rhoi cyfleoedd mewn twristiaeth o wledydd tramor ac o'r Deyrnas Unedig.

Fe fyddwn:

- Yn tyfu'n heconomi drwy gynyddu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n allforio yn rhyngwladol a pharhau i gefnogi a denu buddsoddiadau i Gymru o'r tu allan.
 - Yn tyfu'n heconomi drwy gynyddu allforion gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Yr Undeb Ewropeaidd fydd ein partner pwysicaf o hyd, ni waeth beth fydd canlyniad Brexit.
 - Yn codi proffil Cymru drwy barhau i roi blaenoriaeth i farchnadoedd yn yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon a Gogledd America a datblygu cyfleoedd newydd yn Asia a'r Dwyrain Canol.
 - Yn codi proffil Cymru drwy ddatblygu cynllun gweithredu erbyn Rhagfyr 2019 i gadarnhau cysylltiadau â'n partneriaid Ewropeaidd sydd â blaenoriaeth, sef Llydaw, Fflandrys a Gwlad y Basg (gweler Atodiad B).
- Yn tyfu'n heconomi drwy gefnogi allforwyr newydd a phresennol wrth iddynt archwilio marchnadoedd newydd, boed fel rhan o weithgarwch busnes-fel-arfer ynteu mewn ymateb i drefniadau ar ôl Brexit.
 - Yn tyfu'n heconomi drwy ddarparu buddsoddiadau uniongyrchol o safon o wledydd tramor ledled Cymru yn unol ag egwyddorion y Cynllun Gweithredu Economaidd a thrwy ein timau rhanbarthol.
 - Yn tyfu'n heconomi drwy weithio gyda sefydliadau eraill ledled Cymru i gyflwyno neges a chynnig clir i fuddsoddwyr er mwyn sicrhau bod cynnig Cymru ar gyfer mewnffuddsoddi yn weladwy ac yn darbwylllo.
 - Yn tyfu'n heconomi drwy weithio gyda sefydliadau, fel M-Spark, i hybu entrepreneuriaid, gan ddefnyddio cysylltiadau â Phrifysgol Harvard.



SPTS Casnewydd



Titan Zip World, Blaenau Ffestiniog

EIN TRI NOD ALLWEDDOL YW:

Codi proffil Cymru'n rhyngwladol – byddwn yn adeiladu enw da ein gwlad fel man sy'n fwrlwm o greadigrwydd a lle mae pobl yn rhydd i arloesi ac arbrofi.

Cynyddu'n hallforion a hybu buddsoddi o'r tu allan, gan ehangu'n heconomi a chreu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru – rydym wedi ymrwymo i gofleidio a datblygu technoleg newydd i sicrhau ffyniant.

Dangos i'r byd yr hyn rydym yn ei wneud fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau byd-eang ac amgylcheddol. Mae'n gwerthoedd cryf mewn cynaliadwyedd yn sail i'r strategaeth hon a popeth a wnawn.

Mae Cymru'n wlad fach, ddeallus a hyderus, wedi'i thrwytho mewn diwylliant a hanes. Rydym yn hysbys ledled y byd fel gwlad y gân, wedi'n trwytho mewn chwedlau hynafol, cestyll carreg a dirgelion Celtaidd, ond rydyn ni hefyd yn genedl o chwaraewyr a dylunwyr e-gemau; artistiaid a sêr chwaraeon cyfoes, creadigol a dawnus; biolegwyr a pheirianwyr ar flaen y gad mewn ynni morol a gwyddor hinsawdd.

Mae harddwch naturiol Cymru yn cyfareddu pobl ers canrifoedd. Heddiw mae'n bachu cynulleidfaoedd byd-eang newydd wrth i'r dirwedd drawiadol greu'r gefnlen i ddramâu grymus a throeon plot cymhleth mewn ffilmiau a rhaglenni teledu rhyngwladol sydd wedi'u gwneud ar lleoliad yng Nghymru.

Mae proffil rhyngwladol newydd Cymru ar y sgrin fawr a'r sgrin fach yn helpu i gynyddu enw da rhyngwladol Cymru gan ddenu pobl i Gymru. Ac mae'n henw da am ymchwil sy'n arwain y byd yn helpu i danio'n heconomi gwybodaeth ac enw da ein prifysgolion dysgedig.

Y 10 MARCHNAD YMWELWYR MWYAF⁶

1	Iwerddon
2	Ffrainc
3	Yr Almaen
4	UDA
5	Yr Iseldiroedd
6	Awstralia
7	Sbaen
8	Gwlad Pwyl
9	Yr Eidal
10	Canada

⁶ Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Ymweliadau â Chymru o'r Tu Allan 2015-18

Mae'n celf a'n diwylliant unigryw a grymus – o'r traddodiadol i'r aml-gyfryngol a welwyd yn y Biennale yn Fenis - yn basbort i Gymru i gynulleidfaedd newydd mewn gwledydd ym mhedwar ban byd. Mae'n rhaid inni barhau i ddefnyddio'n cysylltiadau a'n diplomyddiaeth ddiwylliannol i'r eithaf: o amlygu'n sefydliadau diwylliannol rhagorol dros y môr i groesawu sefydliadau diwylliannol rhyngwladol i Gymru.

Mae twristiaeth ryngwladol wedi tyfu dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2017, denodd Cymru fwy na miliwn o ymwelwyr. Drwyddi draw, cyfrannodd ymwelwyr o wledydd tramor ryw £405 miliwn i economi Cymru yn 2018.

Mae rhyw un rhan o dair o dirlun Cymru wedi'i diogelu. Mae gan Gymru dri Pharc Cenedlaethol a'r ardal o harddwch naturiol eithriadol gyntaf ym Mhrydain. Mae gennym rai o'r afonydd a'r traethau glanaf yn y Deyrnas Unedig a Chymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddatblygu llwybr o amgylch yr arfordir cyfan. Mae gan Gymru dri o safleoedd treftadaeth byd UNESCO ac mae un arall, sef diwydiant llechi Cymru, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r rhain yn cynrychioli canrifoedd o dreftadaeth ac yn helpu i osod Cymru yn ei chyd-destun byd-eang.

Mae'n diwylliant, ein tirwedd a'n hiaith yn ffynnu, gan greu cefndir diwylliannol dilyn i ymwelwyr y dyfodol ei ganfod.

Mewn cyfnod o globaleiddio ac awtomeiddio cynyddol, pan fo datblygiadau ym maes cyfathrebu yn golygu ein bod yn gallu siarad â phawb bron unrhyw le ar y blaned, rydym yn byw bywydau mwyfwy toredig. Mae technoleg, sydd wedi gwneud cymaint i wneud y byd yn lle llai yn ein hynysu y tu ôl i'r sgriniau'r llechen a'r ffôn. Mae Cymru'n dal yn genedl o gymunedau agos, lle mae pobl yn adnabod ac yn parchu eu cymdogion ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'u gwlad, a hynny yng nghanol y byd newydd hwn sydd wedi'i alluogi gan dechnoleg uwch ac sydd â'i wleidyddiaeth yn symud yn gyflym ac yn troi'n ansad.

Mae gennym gyfle i ddal yr ymdeimlad hwn o gymuned, sydd wrth galon Cymru, ac adeiladu arno; y berthynas ddofn hon rhwng pobl a'u cynefin. Bydd dal hanfod Cymru fel hyn yn ein helpu i wireddu'n dau nod o godi'n proffil ar lwyfan byd-eang gorlawn a dangos ein hymrwymiad i'n cyfrifoldebau byd-eang ac amgylcheddol.

Mae ansawdd a tharddiad arlwy bwyd a diod Cymru i ymwelwyr wedi'u gweddnewid yn y blynyddoedd diwethaf ac mae rhannau o Gymru wedi magu enw da fel y prif gyrchfannau twristiaeth bwyd yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn gwella arlwy'r bwyd o Gymru sydd ar gael mewn atyniadau i ymwelwyr, ac yn treiddio'n ddyfnach i'r sector gwasanaethau bwyd i wella'r enw da hwn.

Mae buddsoddi o'r newydd ac arloesi mewn atyniadau antur o'r radd flaenaf – canolfannau beicio mynydd, llwybrau heicio, morlynnoedd syrffio mewndirol a gwifrau gwibio – wedi adnewyddu'n henu da rhyngwladol ymysg ymwelwyr ifanc newydd.

Bydd ymwelwyr y dyfodol yn chwilio'n fwyfwy am brofiadau dilys, cynaliadwy ac unigryw ac mae ymagwedd Cymru at gynaliadwyedd amgylcheddol a diwylliannol yn rhoi mantais gystadleuol inni. Mae hanes Cymru o ran cynaliadwyedd a gofal i'r genhedlaeth nesaf yn nodwedd allweddol sy'n ein gwneud yn wahanol i wledydd eraill, gan ysbrydoli cenedlaeth newydd o ymwelwyr rhyngwladol cyfrifol.

Mae Cymru wedi ennill enw am gynnal digwyddiadau byd-eang mawr, fel Cwpan Ryder yn 2010, Uwchgynhadledd NATO yn 2014, rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yn 2017, Ras Hwyllo Volvo yn 2018 ac yn fwyaf diweddar gemau Cwpan Criced y Byd. Drwy fuddsoddi yn Venue Cymru ac agor ICC Cymru yn 2019 cafwyd cyfle newydd i ddenu digwyddiadau ac arweinwyr busnes newydd i Gymru. Cafodd y Gogledd ei ddewis yn un o'r rhanbarthau gorau yn y byd i ymweld â nhw yn 2017 gan y Lonely Planet ac yn "Rising Star of 2019" gan *The Sunday Times Travel*.



Llywybr Arfordir Cymru



SÊR CYMRU

RHAGLEN SÊR CYMRU

Mewn byd o globaleiddio cynyddol, bywiogrwydd gwlad o safbwynt ymchwilio ac arloesi yw un o'i hasedau deallusol mwyaf gwerthfawr a gall hyn fod yn ffon fesur bwysig o ran ansawdd gynhenid a'r potensial ar gyfer arloesi yn y dyfodol o ran ymgysylltu rhyngwladol, datblygu cysylltiadau byd-eang a mewnfuddsoddi.

Mae cydberthyniad cryf rhwng enw da cenedl mewn ymchwilio ac arloesi a pharodrwydd pobl i ymweld â hi, gweithio, astudio a buddsoddi ynddi a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau ganddi.

Cafodd rhaglen Sêr Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ehangu rhagoriaeth a gallu mwn ymchwil yng Nghymru.

Erbyn 2018, roedd 12 o gadeiriau newydd mewn ymchwil a mwy na 100 o gymrodwr ymchwil wedi'u penodi. Mae cymrodoriaethau cystadleuol wedi'u dyfarnu i ymchwilwyr o 28 o wledydd gan gynnwys yr Almaen; Awstralia; Canada; Denmarc; yr Eidal; Ffrainc; India; yr Iseldiroedd; Iwerddon; Mécico; Sbaen; Seland Newydd; Sweden; Tsieina; a'r Unol Daleithiau.

A hithau'n gwneud cyfraniad allweddol i berfformiad ymchwil trawiadol Cymru dros y degawd diwethaf, mae rhaglen Sêr Cymru wedi cynyddu capasiti ymchwil Cymru a'i chydweithio rhyngwladol. Rhwng 1997 a 2001, cafodd tua 25% o ymchwil Cymru ei gwneud ar sail ryngwladol. Erbyn 2016, Cymru a sicraodd y gyfran fwyaf o'r cydweithredu rhyngwladol ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig gyda bron 70% o'i chyhoeddiadau yn cynnwys cyd-awduron o'r tu allan i Gymru.

Yn 2016, nododd prif gyfnodolyn gwyddoniaeth y byd, *Science*, hyn: "Like other countries that see knowledge-growth as a pillar of their economies, Wales has created a science agenda that aims not only to expand academic science but to translate science and technology into applications that lead to economic growth".

Er mai dim ond 4% o gyfanswm cyflwyniadau'r Deyrnas Unedig sy'n dod o Gymru, dangosodd canlyniadau Cymru yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) fod bron hanner yr ymchwil a gyflwynwyd wedi'i werthuso fel ymchwil sy'n arwain y byd o ran ei heffaith, ac o holl wledydd y Deyrnas Unedig, Chymru a sicraodd y gyfran uchaf o effaith pedair seren.



CYMRU O BLAID AFFRICA

Ers mwy na degawd, mae Cymru wedi bod wrthi'n datblygu ac yn dyfnhau cysylltiadau a phartneriaethau cymunedol â gwledydd yn Affrica Is-Sahara drwy'r rhaglen lwyddiannus Cymru o blaid Affrica. Mae'r rhaglen hon sy'n fuddiol i'r ddwy ochr wedi ategu ymagwedd Gymreig unigryw at ddatblygu rhyngwladol cynaliadwy ac undod, sef ymagwedd y gallwn fod yn haeddiannol falch ohoni.

Mae pob un o bartneriaethau Cymru o blaid Affrica yn arddel yr ymagwedd Gymreig at ddatblygu rhyngwladol, lle mae profiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu mewn ysbryd o gyd-barch a dwyochredd.

Mae'r dull bywiog hwn sy'n seiliedig yn y gymdeithas sifil wedi gweld cyfeillgarwch yn tyfu ar draws Cymru ac Affrica, wrth i bobl gydweithio'n ymarferol, yn bwrpasol ac yn ystyrlon tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig. Gweledigaeth y nodau hyn yw byd cyffredin sy'n datblygu'n gynaliadwy, lle does neb yn cael ei adael ar ôl.

Heddiw, mae gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru gyswllt iechyd gweithredol ac mae nifer arwyddocaol o bobl ledled Cymru wedi gweithio â'r 900 a rhagor o sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio yn Affrica ar ddatblygu rhyngwladol a materion undod neu drwy eu cymorth i Fasnach Deg.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ennill y teitl Cenedl Masnach deg ym mis Mehefin 2008 a ni hefyd oedd y cyntaf i ymgorffori'r SDGs yn y gyfraith ddomestig drwy gyfrwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn ehangu ac yn ailenwi'r rhaglen Cymru o blaid Affrica fel Cymru ac Affrica, gan gydnabod y bartneriaeth rhwng y ddwy, ac yn gosod y broses o rymuso menywod wrth galon y gwaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar Uganda a Lesotho.

Byddwn yn adeiladu ar brosiectau amgylcheddol yn Affrica. Mae Cymru eisoes wedi helpu i ddiogelu arwynebedd o goedwig law drofannol ddwywaith yn fwy na Chymru, a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i blannu coeden yn Affrica Is-Sahara ar gyfer pob person yng Nghymru bob blwyddyn i helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

CADW GWENYN YN DARPARU INCWM ECO-GYFEILLGAR I DEULUOEDD YN SOMALILAND DIOLCH I GYMORTH O CYMRU

Bydd 50 o deuluoedd o Somaliland yn cael cymorth i sefydlu gwenynfeydd proffidiol drwy werthu mêl yn lleol ac allforio cŵyr gwenyn i Gymru, diolch i arian gan raglen Cymru o blaid Affrica.

Bydd y cŵyr, sydd fel arfer yn cael ei weld fel sgil-gynnyrch wrth gadw gwenyn, yn cael ei droi'n ganhwyllau crefftwrol gan aelodau o'r gymuned alltud o Somaliland yng Nghymru a chaiff y rhain eu gwerthu gan y siop Bees for Development yn Sir Fynwy.

Mae Bees for Development sydd a'i gartref yng Nghymru wedi cael £15,000 o gyllid gan raglen Cymru o blaid Affrica. Maen nhw'n cydweithio â sefydliad partner yn Ethiopia i roi hyfforddiant mewn sgiliau cadw gwenyn yn Somaliland.

Mae'r wlad yn agored i sychder, ac felly gall da byw gael eu colli. Mae cadw gwenyn yn cynnig ffynhonnell incwm i gefnogi teuluoedd ac i godi arian i brynu da byw newydd. Amcangyfrifir y bydd 300 o bobl yn elwa drwy'r prosiect.

Dyma un o bron 600 o brosiectau Cymru-Affrica sydd wedi cael cyllid drwy gynllun grantiau Llywodraeth Cymru, Cymru o blaid Affrica, dros y degawd diwethaf.

Y cynllun grantiau hwn yw menter amlycaf Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng Cymru ac Affrica. Mae'n galluogi grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru i sicrhau arian i brosiectau Cymru-Affrica ar raddfa fach sy'n cael effaith gadarnhaol, yn Affrica ac yng Nghymru.

Mae cyllid yn cael ei gynnig i brosiectau ynglŷn â phedair thema – iechyd, bywoliaeth gynaliadwy, dysgu gydol oes, a newid hinsawdd a'r amgylchedd.

Fe fyddwn:

- Yn codi proffil Cymru yn rhyngwladol drwy hybu Cymru fel canolfan ar gyfer twristiaeth antur a thwristiaeth gynaliadwy i gynulleidfaoedd rhyngwladol gan gynyddu niferoedd yr ymwelwyr yn unol â'n strategaeth twristiaeth sydd yn yr arfaeth.
- Yn codi proffil Cymru yn rhyngwladol drwy hybu rhagoriaeth ddiwylliannol Cymru a'i henw da mewn chwaraeon ledled y byd gan ddefnyddio digwyddiadau mawr megis Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan fel llwyfan i greu gwaddol ar gyfer y dyfodol.
- Yn codi proffil Cymru yn rhyngwladol drwy barchu potensial twristiaeth i gario baner Cymru ar lwyfan y byd, gan weithredu fel ffordd o gyflwyno cynulleidfaoedd newydd i Gymru, creu ymdeimlad o groeso, a chreu cysylltiadau gydol oes â phartneriaid y dyfodol ledled y byd.
- Yn codi proffil Cymru drwy gynyddu'n buddsoddiad mewn cynhyrchion o ansawdd ryngwladol, sicrhau digwyddiadau mawr a marchnata Cymru fel cyrchfan twristiaeth o'r radd flaenaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn cydweithrediad â'r sector gan ddefnyddio dirnadaeth i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau.
- Yn codi proffil Cymru drwy ddatblygu arlwy Croeso Cymru i hybu llwybr arfordir unigryw Cymru a defnyddio diwylliant Cymru a'r Gymraeg fel ffactor cadarnhaol a gwahanol i hybu twristiaeth gynaliadwy i gynulleidfaoedd rhyngwladol.

➤ Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy ailfrandio rhaglen lwyddiannus Cymru o blaid Affrica yn rhaglen Cymru ac Affrica gan hoelio sylw ar gynaliadwyedd.

➤ Yn dangos cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang drwy adeiladu ar ein henw da fel llywodraeth ffeministaidd drwy ddatblygu cyfleoedd sydd o fudd i'r ddwy ochr i fenywod gyda'n partneriaid yn Uganda a Lesotho.

Mae gwerth cysylltiadau rhyngwladol i economi Cymru yn aruthrol: gwerth biliynau o bunnoedd o fasnach, degau o filoedd o swyddi, buddsoddiadau enfawr, cyfnewid technoleg, partneriaethau ymchwil, miloedd o leoedd i fyfyrwyr, cysylltiadau byd-eang – bob un wedi'i seilio ar ymwneud Cymru â gweddill y byd.



Wild Creations, Caerdydd

Mae'r byd sydd ohoni lle rydym yn byw ac yn gwneud busnes yn anwadal, yn newid yn gyflym ac yn hynod gystadleuol. Os nad yw Cymru'n weithgar a deinamig yn rhyngwladol, bydd y swyddi, y buddsoddiadau, y myfyrwyr yn mynd i'n cystadleuwyr. Rhaid wynebu'r her, neu wynebu colledion.

Nawr yw'r amser i godi lefel ein huchelgais. Rhaid gwneud mwy, nid llai. Rhaid inni feddwl yn fwy eang, nid yn fwy cul. Rhaid inni weithio mewn partneriaeth i amlhau'n hymdrechion. Mae Cymru yn cyflawni fwyaf pan fydd pawb yn cydweithio fel tîm.

Mae ein gwlad fach ni'n cyfrannu cymaint i'r byd. Mae gan ein busnesau a'n entrepreneuriaid byd-eang, ein perfformwyr a'n hartistiaid, enw da ledled y byd. Mae'n henillwyr gwobrau Nobel a'n hymchwilwyr, ein chwaraewyr gwydh, ein gweithwyr cymorth a'n cymdeithas ddinesig i gyd yn gweithio i wneud Cymru a'r byd yn lle gwell i fyw. Mae gan Gymru werthoedd a phenderfyniad i rannu yn y gymuned fyd-eang.

Rydym yn falch o'n hanes, ond y dyfodol sy'n ein hysgogi. Mae popeth a wnawn yn adeiladu ar gyfer y to sy'n codi. Rydym yn edrych at swyddi yfory ac yn paratoi'n plant i'w gwneud. Rydym yn adeiladu seilwaith a chysylltedd ynni glân. Rydym yn ymwneud â newid hinsawdd a'r amgylchedd am ein bod yn malio am ein plant, ein hwyrion a'n hwyresau. Rydym am ddysgu gan y goreuon a hybu'r hyn y mae Cymru'n ei wneud yn dda.

Mae'n byd ni'n gyd-ddibynnol ac mae'n buddiannau yn gyffredin. Gwlad Ewropeaidd yw Cymru ac rydym yn coleddu'n perthynas â'n cymdogion. Rydym yn gwneud ein gilydd yn fwy ffyniannus, yn iachach ac yn fwy hyddysg.

Mae'r byd yn eang ac yn newid yn gyson. Rhaid i Gymru newid gydag ef. Bydd ein busnesau'n chwilio am farchnadoedd newydd mewn economïau sy'n tyfu. Rhaid inni ateb heriau yfory a'u cofleidio. Dyna'r hyn y mae'r strategaeth hon yn ceisio ei hybu.

ATODIAD A – RHWYDWEITHIAU A CHYTUNDEBAU RHYNGWLADOL

Mae gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru gysylltiadau â'r sefydliadau a ganlyn. Mae'r cysylltiadau'n amrywio o aelodaeth lawn i gyfranogiad achlysurol. Nid rhestr gynhwysfawr mo hon a chaiff ei hadolygu wrth i fanylion terfynol perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd gael eu pennu os bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael ar 31 Hydref, 2019.

- Ardal Môr Iwerydd
- Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol Ewrop
- Canolfan Arbenigedd Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat Ewrop
- Clymblaid o dan 2
- Comisiwn Fulbright
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth
- Cyngor Cymunedau a Rhanbarthau Ewrop
- Cymdeithas Rhanbarthau ac Awdurdodau Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes
- Cymdeithas Telemateg Iechyd Ewrop (EHTEL)
- Cynhadledd ar Gynulladau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop
- Cynhadledd Rhanbarthau Morol Ymylol
- Dinasoedd a Llywodraethau Lleol Unedig (UCLG)
- Egni Cefnforoedd Ewrop
- ERRIN – Rhwydwaith Ymchwilio ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop
- ESPON
- EUROCITIES
- Eurochild
- Europa Nostra (rhwydwaith treftadaeth ddiwylliannol)
- EURORAI – Cymdeithas Sefydliadau Archwilio Allanol Cyllid Cyhoeddus Rhanbarthol Ewrop

- Ewrop Greadigol
- Grŵp Anifeiliaid Ewrop
- Grŵp yr Hinsawdd
- Gweithredu Diwylliannol Ewrop
- Fforwm Llywodraeth Leol y Gymanwlad
- IETM (Cyfarfod Anffurfiol Theatr Ewrop gynt)
- INTERACT (INTERREG / ETC)
- INTERREG – Ewrop ac Iwerddon
- Lobi Menywod Ewrop
- Lwyfan Rhanbarthol Dysgu am Fioamrywiaeth
- Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop
- Llwyfan Pontio Diwydiant
- Make It Work
- Menter Vanguard
- Partneriaeth Arloesi Ewrop ar Heneiddio'n Weithredol ac yn Iach
- Pwyllgor Cynghori Llywodraethau Is-genedlaethol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol
- Y Pedwar Modur
- Pwyllgor y Rhanbarthau
- Rhaglen Ysgoloriaethau Rhyngwladol Gilman
- Rhanbarthau â Phwerau Deddfu (REGLEG)
- Rhanbarthau Cine
- Rhanbarthau dros Ddatblygu Cynaliadwy (rhyngwladol) (nrg4sd)
- Rhwydwaith Awdurdodau Lleol Ewrop (ELAN)
- Rhwydwaith Cydweithredol Safleoedd Cyfeirio (RSCN)
- Rhwydwaith dim GMOs
- Rhwydwaith Ewropeaidd Cymdeithasau'r Gymdeithas Ddinesig Genedlaethol
- Rhwydwaith Hybu Amrywiaeth Ieithyddol
- Rhwydwaith REGAL ('Rhanbarthau arloesol ac entrepreneuriaid Ewrop dros ddatblygiadau tirioegaethol mewn bwyd a llesiant')

- Rhwydwaith Rhanbarthau dros Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO RHN)
- Sefydliad Arloesedd a Thechnoleg Bwyd Ewrop (Bwyd)
- Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop
- Sefydliad Seiberddiogelwch Ewrop
- Siambrau Masnach Prydain – yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, yr Almaen, yr Eidal a Ffrainc
- Swyddfeydd y Deyrnas Unedig ym Mrwsel
- Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (IUCN)
- URBACT

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Ar ben y sefydliadau hyn, mae Cymru hefyd wedi llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i ffurfioli perthnasoedd â'r rhanbarthau a'r gwledydd a ganlyn:

- Catalwnia
- Chubut
- Galicia
- Gwlad y Basg
- Latvia
- Llydaw
- Llywodraeth Pobl Neijiang (Addysg)
- Mbale CAP, Bududa ac Ardal Manafwa (Cymru o blaid Affrica)
- Québec (Aerofod)
- Sbaen (Addysg)
- Tsiena (Diwylliant ac Addysg)

Cymdeithas Conswliaid Cymru

Mae nifer o wledydd yn defnyddio conswliaid anrhydeddus i feithrin perthnasoedd â Chymru. Grŵp gwirfoddol o gonswliaid yng Nghymru yw Cymdeithas y Conswliaid. Mae conswliaid anrhydeddus yn cael eu penodi gan lywodraeth y wlad y maent yn ei chynrychioli ac i'r Llywodraeth honno y maen nhw'n gyfrifol.

Ceir rhestr isod o'r gwledydd sydd â chonswliaid anrhydeddus yng Nghymru. Yn ychwanegol, mae gan yr Unol Daleithiau Swyddog Materion Cymreig ond nid conswl anrhydeddus.

Yr Almaen
Belarus
Brasil
Canada
Denmarc
Yr Eidal
Estonia
Y Ffindir
Ffrainc
Gwlad Belg
Gwlad yr Iâ
Gwlad Iorddonen
Gwlad Thai
Hwngari
India
Yr Iseldiroedd
Israel
Japan
Kazakhstan
Latvia
Lesotho
Malta
México
Namibia
Norwy
România
Slofacia
Sweden
Y Swistir

ATODIAD B – Y PERTHNASOEDD RHYNGWLADOL SY'N CAEL BLAENORIAETH

Ers datganoli rydym wedi ffurfioli perthnasoedd llywodraeth-i-lywodraeth â sawl rhanbarth ac wedi llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda rhanbarthau yn Ewrop sy'n cynnwys Llydaw (a lofnodwyd gyntaf yn 2004, a adnewyddwyd yn 2011 a 2018), Galicia (2018) a Gwlad y Basg (2002 a 2018).

Rydym hefyd wedi cydweithredu'n gryf ers tro byd â Fflandrys, Baden-Württemberg a Gogledd Rhine-Westphalia ac wedi llofnodi Datganiad Cyfeillgarwch ac Undod gyda thalaith Gogledd Holland yn yr Iseldiroedd, sy'n cynnwys Amsterdam.

Mae'n perthynas ag Iwerddon a'r Almaen yn arbennig o gryf. Gwladolion o'r Almaen ac Iwerddon sy'n byw yng Nghymru yw dwy o'n cymunedau rhyngwladol mwyaf. Mae'r ddwy ymysg y pum prif farchnad o ran allforio, mewnfuddsoddi a nifer yr ymwelwyr rhyngwladol.

Dyma ranbarthau sy'n cael blaenoriaeth oherwydd treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin, gwerthoedd cyffredin a buddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin ac fe ddylent fod yn ffocws ar gyfer ein gweithgareddau cydweithredu o ran gweithgarwch llywodraethau a phartneriaid wrth gydweithio ar brosiectau. Bwriadol yw nifer cyfyngedig y rhanbarthau sydd â blaenoriaeth – byddai nifer fwy yn arwain at ymdrech wasgaredig gan wneud canlyniadau ystyrlon yn fwy anodd eu cyflawni.

Mae pob un o'r perthnasoedd hyn yn wahanol, a bydd ein dull gweithredu a'n gweithgareddau yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â rhanbarthau Ewropeaidd eraill gan ei bod yn bosibl nad yw'r perfformiwr gorau mewn unrhyw faes gweithgarwch penodol, na'r cyfleoedd masnachol mwyaf addawol, i'w cael o reidrydd ymysg ein rhanbarthau partner.

Llydaw

Dyma berthynas ddwyochrog Ewropeaidd gadarn ac egniol ac mae'r ddwy lywodraeth wedi ymrwymo i ddyfnhau eto ar ein cysylltiadau. Mae gwreiddiau'r berthynas yn gorwedd yn ein treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin ac mae iaith a diwylliant yn chwarae rhan bwysig fel y gwelir yn ein hymrwymiad i Wyl Lorient, y bartneriaeth rhwng ein cerddorfeydd, ein hartistiaid a'n hasiantaethau hybu celfyddydau. Er hynny, mae'r berthynas yn un eang ac rydym wedi nodi bwyd-amaeth, ynni'r môr a'r sector seibr fel meysydd ffrwythlon posibl ar gyfer cydweithredu economaidd yn ogystal ag ystyried rhaglen gyfnewid myfyrwyr hirdymor.

Gwlad y Basg

Mae gan Gymru a Gwlad y Basg gysylltiadau hanesyddol ar sail treftadaeth ddiwydiannol, cysylltiadau helaeth es tro byd ar lefel llywodraethau a sefydliadau ac mae yna gyfleoedd clir i gydweithredu yn yr economi, mewn dysgu, iechyd a diwylliant.

Bernir bod model Gwlad y Basg o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sy'n cael ei sbarduno gan arloesi yn batrwm ac mae gan y rhanbarth lawer i'w gynnig o ran ei brofiad mewn cynllunio ieithyddol, polisi ariannol, bwyd-amaeth a mentrau cymdeithasol. Mae dewis Cymru fel yr unig ranbarth blaenoriaeth newydd yn eu *Strategaeth Rhyngwladoli* (2018-20) yn dangos awydd Gwlad y Basg i gael perthynas waith agosach â Chymru, gan gysoni buddiannau ac mae'n dystiolaeth o dwf ein gweithgaredd rhyngwladol a'n proffil ni. Cafodd perthynas y ddwy wlad ei chyfnerthu drwy lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2018.

Fflandrys

Mae gennym berthynas hanesyddol â Fflandrys a'i llywodraeth, sydd wedi'i chyfnerthu dros y pedair blynedd diwethaf o ganlyniad i weithgarwch i goffâu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac adeiladu cofeb newydd i'r Cymry. Ceir nifer fawr o ddolenni sy'n cysylltu'n llywodraethau, ein sefydliadau a'n pobl ar draws iechyd, diwylliant, busnes ac addysg uwch gyda'r bartneriaeth strategol rhwng prifysgolion Caerdydd a Leuven. Rydym yn adeiladu cysylltiadau â chorff Masnachu a Buddsoddi Fflandrys a chlystyrau busnes yn Fflandrys i adeiladu ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd rhwng clwstwr B-hive yn Fflandrys a Seiber Cymru.


PERTHNASOEDD Â GWLEDYDD

Yr Almaen yw partner masnachu mwyaf Cymru a phartner arwyddocaol o ran buddsoddi; mae **Ffrainc** yn bartner pwysig o ran masnach, twristiaeth, addysg a diwylliant ac lwerddon yw'n cymydog Ewropeaidd agosaf o hyd. Gwladolion o'r Almaen ac lwerddon sy'n byw yng Nghymru yw dwy o'n cymunedau rhyngwladol mwyaf. Mae pob un yn bartneriaid masnachu pwysig y mae gennym gysylltiadau gyda nhw ers tro byd, a'r rheiny'n ymestyn y tu hwnt i fasnach yn unig.

Mae'r Unol Daleithiau, a marchnad ehangach Gogledd America, yn

fuddsoddwr pwysig yng Nghymru. O'r 1,245 o gwmnïau tramor sy'n gweithredu yng Nghymru, mae mwy nag 20% yn perthyn i'r Unol Daleithiau a'r Unol Daleithiau sydd ar frig y rhestr o farchnadoedd buddsoddi o'r tu allan yn gyson. Mae graddfa economïau'r Unol Daleithiau a Chanada yn golygu bod cyfleoedd yn gallu codi mewn unrhyw sector ac unrhyw ranbarth bron.

ATODIAD C – SWYDDFEYDD LLYWODRAETH CYMRU DROS Y MÔR



Asia:

China

Beijing: +86 10 5811 1811
 Chongqing: +86 23 6332 0411
 Shanghai: +86 21 6229 0655

India

Bangalore: +91 95 3851 1126
 Mumbai (India HQ): +91 22 6650 2222
 New Delhi: +91 11 2419 2398

Japan

Tokyo: +81 3 5211 1247

Ewrop:

Gwad Belg

Brussels: +32 (0) 473 865 658

France

Paris: +33 1 44 51 31 36

Yr Almaen

Berlin (Germany HQ): +49 3020 457135
 Düsseldorf: +49 (0) 211 9448-215

Iwerddon

Dublin: +353 12053795

Y Deyrnas Unedig

London: +44 (0) 20 7799 5883

Y Dwyrain Canol:

Gwladwriaeth Qatar

Doha: +974 4496 2009

Yr Emiradau Arabaidd Unedig

Dubai: +971 (4) 309 4201

Gogledd America:

Canada

Montreal: +1 514 291 1094

Unol Daleithiau America

Atlanta: +1 (404) 954 7741
 Chicago: +1 (312) 970 3802
 New York: +1 (212) 745 0415
 San Francisco: +1 (415) 617 1355
 Washington DC
 (North America HQ): +1 (202) 588 6623

ATODIAD D – EIN GWERTHOEDD

Mae'r strategaeth hon wedi'i seilio ar ein gwerthoedd a'n hegwyddorion, a nodir yn y ddeddfwriaeth, y dogfennau allweddol a'r cynlluniau gweithredu a ganlyn.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd wedi troi Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig yn ddeddf gwlad a hynny drwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r saith nod llesiant wedi'u nodi isod.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru: mae'n effeithio ar bopeth y mae corff cyhoeddus yn ei wneud. Rhaid i bob sefydliad cyhoeddus gymryd i ystyriaeth yr effeithiau hirdymor a gaiff unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud a'r effaith ganlyniadol y gallai ei chreu, o ran ffyniant pobl Cymru, ei hamgylchedd, ei diwylliant a'i chymunedau.

Nod y Ddeddf yw i Gymru ddatblygu atebion hirdymor i broblemau fel tloedi, afiechyd, ansawdd aer gwael, swyddi o ansawdd isel.

Dyma'r saith nod llesiant:

- **Cymru lewyrchus** – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

- **Cymru gydnerth** – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- **Cymru iachach** – Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus** – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Hawliau dynol

Yn ddiweddar rydym ni wedi dathlu 70 mlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a chyn bo hir bydd Deddf Hawliau Dynol y Deyrnas Unedig yn dod i oed hefyd – mae'r ddau hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer amddiffyn a diogelu hawliau unigolion yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Ers datganoli, mae Cymru wedi ei dylanwadu'n fawr gan y ddwy ddogfen hyn ac wedi arddel ymagwedd at lunio polisiau a deddfwriaeth sydd wedi'i seilio ar hawliau. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith ddomestig, gan osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn.

Cynllun Gweithredu Economaidd

Y Cynllun Gweithredu Economaidd sy'n nodi'n hymagwedd ni at gefnogi'r economi mewn ffordd sy'n cynyddu'n cyfoeth a'n llesiant drwy gyfrwng twf cynhwysol, sef dosbarthiad tecach ar fanteisio twf economaidd ar lefel unigol a rhwng gwahanol rannau Cymru.

Hoffem weld economi cryf, gwydn ac amrywiol sy'n cyflawni pethau i bobl Cymru, gan alluogi pobl i wireddu eu huchelgais, galluogi busnesau i lewyrchu a galluogi cymunedau i ffynnu.

Rydym o'r farn bod twf a thegwch yn atgyfnerthu ei gilydd, ac nid yw'n cau ei gilydd allan. Rydym yn chwilio am dwf am ei fod yn gallu hybu tegwch ac fe ddylen ni anelu at Gymru decach, am fod hynny'n gwella'n potensial ar gyfer twf. Mae yna reidrwydd economaidd yn ogystal â rheidrwydd moesol i fynd ar ôl twf cynhwysol. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod anghydraddoldebau'n lleihau'r rhagolygon ar gyfer twf – gan effeithio ar y tebygolrwydd y bydd unigolion

yn buddsoddi yn eu haddysg a'u hyfforddiant gan arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth sy'n dod â chost economaidd a diffygion cymdeithasol sydd yn eu tro yn dylanwadu ar ganlyniadau'r economi.

Mae deall natur y cryfderau a'r heriau economaidd sy'n ein hwynebu yn ein helpu i lunio'n hymateb. Nod y camau y byddwn yn eu cymryd yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag anawsterau heddiw ac yn gosod sylfeini cadarn at y dyfodol, sef gwaddol cadarnhaol wedi'i seilio ar set o egwyddorion clir.

Craidd y cynllun yw'n *Contract Economaidd* – perthynas newydd rhwng busnes a'r llywodraeth. Mae'n gofyn i fusnesau sy'n cael cymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ddangos twf posibl; Gwaith Teg; hybu iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle a chynnydd tuag at leihau eu hól troed carbon.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://gweddill.gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

Gwaith teg

Rydym yn credu bod gwaith teg yn gallu helpu i gyflawni economi cryfach, mwy modern, mwy cynhwysol. Mae gwaith teg yn cyd-fynd â hen draddodiadau diwylliannol Cymru o undod cymunedol a chydlynedd cymdeithasol. Gall helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, lleihau tlodi a hybu llesiant. Mae gwaith teg yn cyfrannu at dwf a ffyniant cenedlaethol.

Mae'r Comisiwn Gwaith Teg yng Nghymru wedi diffinio gwaith teg fel hyn: "bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

"Nodweddion o fewn y diffiniad: Gwobrwyo teg; llais y cyflogai a chyd gynrychiolaeth; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol.

"Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn hollbwysig i'r chwe nodwedd."

Partneriaeth Gymdeithasol

Rydym yn credu mewn mynd ati mewn partneriaeth gymdeithasol – gweithio gyda staff y sector cyhoeddus a'u cynrychiolwyr a gwrandio arnynt – er mwyn creu gwell gwasanaethau i bobl yng Nghymru a diogelu swyddi gweithwyr y gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod ymroddiad a rhagoriaeth gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus yn allweddol i drawsnewid. Y weledigaeth sydd gennym yw gweithlu sydd wrth galon y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae'r rhan fwyaf sy'n gweithio yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru hefyd yn ddinasyddion yng Nghymru ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnig mantais ddeuol o ran ymgysylltu â'r gweithlu ac ymgysylltu â dinasyddion a'r ffordd orau posibl i ddeall yr hyn y mae angen ei wneud.

Rydym am i'n gweithlu gwasanaeth cyhoeddus gael llais, a sicrhau bod pobl yn gwrandio arno, yn ymddiried

ynddo ac yn gweithredu arno am fod gan y llais brofiad uniongyrchol dilys. Mae ymddiriedaeth yn hanfodol er mwyn i wasanaethau cyhoeddus berfformio'n dda. Er mwyn i wasanaethau gyrraedd safon y gorau un, mae angen i ddinasyddion gael eu cynnwys yn llawn mewn cylch di-dor o adborthi a gwella.

Rydym hefyd am gael bargaen deg i'n gweithlu gwasanaeth cyhoeddus, sef bargaen sy'n parchu hawliau a chyfrifoldebau staff a chyflogwyr ynghyd â swyddogaeth hanfodol yr undebau llafur i wneud gwahaniaeth a llunio dyfodol llwyddiannus i Gymru.

Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Cafodd y cod ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau ar ran y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod arferion cyflogaeth anfoesegol yn digwydd mewn cadwyni cyflenwi ledled Cymru a'r tu hwnt.

Bwriad y cod yw sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi mewn modd moesegol a hynny yn unol â llythyren ac ysbryd deddfau'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r deddfau rhyngwladol. Mae'n ymdrin ag amryw o faterion cyflogaeth, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a chamdrin hawliau dynol; cosbrestru; hunan-gyflogaeth ffug; defnyddio cynlluniau ymbarél yn annheg, contractau dim oriau a'r cyflog byw.

Mae mwy na 150 o sefydliadau cyhoeddus a phreifat sy'n gweithio yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Cod, sydd ar gael yma: <https://prp.gov.wales/docs/prp/ethicalcode/codeofpracticeethicalemploymentcym.pdf>

Y Gymraeg

Y Gymraeg yw un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl.

Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hyn yn sicr yn uchelgais ymestynnol, ond mae'n her sydd yn ein barn ni'n werthfawr ac yn angenrheidiol os ydym yn bwriadu sicrhau ffyniant y Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol. Cafodd y Ddeddf Iaith gyntaf ei phasio ym 1967. Mae statws y Gymraeg wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth, sy'n cael ei gwneud yng Nghymru ac mae ganddi statws cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau i gynyddu nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru wedi'u nodi yn Cymraeg 2050 <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

Datgarboneiddio

Newid yn yr hinsawdd yw'r her fyd-eang sy'n diffinio'n cyfnod ni. Mae Cytundeb Paris yn gosod y cyfeiriad i'r gymuned ryngwladol ddod at ei gilydd i weithredu ac yn yr adroddiad diweddaraf gan y Panel Rhynglywodraethol ar newid yn yr hinsawdd fe gawsom ein hatgoffa o'r brys sy'n angenrheidiol ar draws y gymuned ryngwladol.

Mae newid yn yr hinsawdd yn fater sy'n croesi ffiniau gwleidyddol a chymdeithasol ac yn aml y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau sy'n teimlo'r effaith fwyaf.

Mae datgarboneiddio yn cynnig cyfleoedd aruthrol i greu economi ffyniannus sy'n deg yn gymdeithasol.

Rydym wedi nodi ymagwedd at dorri allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n codi'r manteision ehangach i Gymru i'r eithaf, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n *Cynllun Carbon Isel* yn nodi 100 o bolisiau a chynigion, sy'n lleihau allyriadau'n uniongyrchol ac yn cefnogi twf yr economi carbon isel.

Mae'r *Cynllun Carbon Isel* ar gael yma: <https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf>

ATODIAD E – PROSIECTAU MAGNET

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Ardal Forol Doc Penfro

Arloesi mewn lechyd – Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer lechyd (ARCH)

Beacon+

Campws Arloesi a Menter Aberystwyth – AIEC

Canolfan Ragoriaeth Sbectrwm Radio y DU - Aberporth

Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer – Y Ganolfan Adeiladau Gweithredol

Ffatri'r Dyfodol VetHub1

IBERS – Aberystwyth

Parc Bwyd Hwlffordd

Pentref a Champws Llesiant a Gwyddorau Bywyd

Porthladdoedd Dŵr Dwfn

Prosiect Helix Canolfan Ragoriaeth Gwasanaethau Digidol y Genhedlaeth Nesaf

Sgwâr Digidol Canol Abertawe

Systemau Awyrennau Dibeilot Cymru – Aberporth

Yr Egin – Caerfyrddin

Y De-ddwyrain

Canolfan Genedlaethol Defnyddio Data (NDEC)

Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru

Catapwlt y DU – Clwstwr lled-ddargludyddion Cyfansawdd

Clwstwr Fintech

Clwstwr Seiber

Clwstwr y Sector Aerofod ac Amddiffyn

Gwyddorau Bywyd/Diagnosteg ac Offer Meddygol

Y Gogledd

Canolfan Dechnoleg OpTIC

Clwstwr Niwclear

Cyfleuster Ymchwil Uwch mewn Gweithgynhyrchu – Glannau Dyfrdwy

Menai Science Park Ltd (M-SParc)

Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol – Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd (NRN-LCEE)